# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 15 MEDI 2015 am 3.00 o'r gloch y.p. | TUESDAY, 15 SEPTEMBER, 2015 at 3.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a
Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones,

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Sedd Wag/Vacant Seat

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Mai, 2015.
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 14 Mai, 2015.

4 **ENWEBU AELOD I'R PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 7 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

5 **ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BARTNERIAETH DAI YNYS MÔN** (Tudalennau 9 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

6 **DIWEDDARIAD BLYNYDDOL - TREFNIADAU DIOGELU AR GYFER OEDOLION BREGUS YM MÔN** (Tudalennau 21 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mewn perthynas â'r uchod.

7 **ADRODDIAD BLYNYDDOL - 'GWRANDO AR GWYNION A DYSGU ODDI WRTHYNT'** (Tudalennau 35 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanethau Oedolion mewn perthynas â'r uchod.

8 **SCRUTINY OUTCOME PANELS - UPDATE** (Tudalennau 59 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

9 **DIWEDDARIAD AR DREFNIADAU SGRIWTINI ARFAETHEDIG Y BWRDD GWASANETHAU LLEOL AR Y CYD** (Tudalennau 67 - 70)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'r uchod.

10 **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD NEU'R IS-GADEIRYDD**

11 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 71 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

12 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 73 - 74)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

**13** **MODERNEIDDIO GWASANAETH WARDEN MEWN TAI GWARCHOD Y MAE'R CYNGOR YN BERCHEN ARNYNT** (Tudalennau 75 - 124)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd D R Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, W.T. Hughes, Carwyn Jones, R.Ll. Jones, Richard Owain Jones, Dylan Rees, Dafydd R. Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol,<br>Uwch Swyddog Prisio,<br>Swyddog Sgriwtini (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Gerallt Ll. Jones, Rheolwr-gyfarwyddwr Menter Môn – ar gyfer eitem 5. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

Estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i'r Prif Weithredwr, Mr. Richard Parry Jones a oedd yn ymddeol o'r Cyngor Sir ar ddiwedd mis Mai. Dymunwyd yn dda i Mr. Jones hefyd gan Aelodau'r Pwyllgor.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Dim.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nododd Mr. Gerallt Ll. Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn, y byddai ef yn cyflwyno eitem 5 i'r cyfarfod a'i fod yn aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2015.

**4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Roedd aelod o'r Pwyllgor yn ystyried y dylid trafod eitem 5 – Llys Llewelyn, Aberffraw yn gyhoeddus er mwyn cael trafodaeth agored ar y mater.

**5 LLYS LLEWELYN, ABERFFRAW**

Adroddodd y Swyddog Sgriwtini fod y Cynghorydd Ann Griffith wedi gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio drafod y materion sy'n ymwneud â gwerthu Llys Llewelyn, Aberffraw a phryderon y trigolion lleol.

Dywedodd y Cynghorydd Ann Griffith ei bod hi, fel yr aelod lleol ar gyfer Bro Aberffraw, wedi derbyn nifer o bryderon gan y trigolion lleol ynglŷn â gwerthu Llys Llewelyn ac am ddyfodol y safle. Nododd ymhellach fod Cyngor Cymuned Aberffraw wedi trafod y mater a bod y Cyngor yn bryderus am ddyfodol Llys Llewelyn gan ei fod yn ased gwerthfawr i bentref Aberffraw.

Rhoddodd Mr. Gerallt Ll. Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn, adroddiad cefndir i'r Pwyllgor ynglŷn â phryd fyddai'r Cyngor Sir yn cysylltu â Menter Môn i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn bod yn gyfrifol am redeg Llys Llewelyn. Roedd Menter Môn wedi cymryd les o 25 mlynedd yn ôl yn 2004. Roedd yr unedau crefft wedi cael eu haddasu yn llety gwyliau ynghyd â golchdy masnachol. Roeddent wedi cael grant Amcan 1 i ailfodelu Llys Llewelyn. Roedd Agored Cyf., sy'n sefydliad sy'n datblygu cyfleoedd cyflogaeth posib i bobl anabl a phobl dan anfantais, yn rhedeg y caffi ar y safle. Pwysleisiodd Mr. Jones y byddai Agored Cyf. yn parhau i redeg y caffi yn Llys Llewelyn gan fod ganddynt les ar y cyfleuster.

Nododd bod y safle yn dal i beri pryder ond bod angen buddsoddiad newydd i gwrdd â chyfleoedd economaidd newydd a bod y cyfleuster bellach ar werth. Nododd Mr. Jones ymhellach ei fod yn ystyried bod gan Aberffraw botensial gwych i ddenu mwy o dwristiaid i'r ardal gan fod pentrefi gerllaw yn denu twristiaid sydd â diddordeb mawr mewn chwaraeon dŵr a gweithgareddau eraill.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau gwestiynu Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn. Cododd yr Aelodau y materion a ganlyn:-

- Sicrwydd y byddai'r caffi ar safle Llys Llewelyn yn parhau ac na fyddai unrhyw un yn cael ei ddiswyddo ar ôl gwerthu'r safle.
- Yr angen i Llys Llewelyn fod yn ganolbwynt yn y pentref i ddenu twristiaid ac fel budd cymunedol i Aberffraw.

**PENDERFYNWYD diolch i Reolwr Gyfarwyddwr Menter Môn am ddod i'r cyfarfod a gobeithiwyd y byddai Llys Llewelyn, Aberffraw yn cael ei werthu i rywun a fyddai'n rheoli'r cyfleuster mewn modd tebyg i'r defnydd presennol.**

## 6 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD

Adroddodd y Cadeirydd bod y Swyddog Sgriwtini wedi cysylltu â chynrychiolwyr o Land & Lakes i weld a fyddant yn fodlon mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol i drafod y prosiect maent yn bwriadu ei ddatblygu yng Nghaergybi. Roedd y cwmni wedi cadarnhau y byddant yn fodlon mynychu cyfarfod ond roeddent wedi gofyn yn gwrtais a fyddai modd iddynt dderbyn gwahoddiad arall yn hwyrach ymlaen eleni gan eu bod ar hyn o bryd yn delio â materion cynllunio oedd yn parhau. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Aelodau bod camau'n cael eu cymryd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy i drefnu cyfarfodydd briffio ar

brosiectau datblygiadau economaidd sylweddol ar yr Ynys, er mwyn rhoi gwybodaeth gefndir i'r Aelodau cyn i unrhyw gwmni/ sefydliad fynychu'r Pwyllgor.

## 7 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – y Rhaglen Waith ddrafft ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf o'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith ddrafft.**

**GWEITHREDU: Bod yr Aelodau yn cysylltu â'r Swyddog Sgriwtini gydag unrhyw eitemau y maent yn dymuno i'r Pwyllgor eu trafod.**

**Y CYNGHORYDD D.R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr John Griffith, Derlwyn Hughes, W. T. Hughes, Alun Mummery, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees, Dafydd Rhys Thomas. |
| **WRTH LAW**: | Darpar Brif Weithredwr<br>Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Cynghorydd Jim Evans (fel Cadeirydd y Cyngor Sir) |

---

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Dim wedi'i dderbyn.

**2. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Derlwyn Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**3. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Alun Mummery yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**Cynghorydd Jim Evans**
**(fel Cadeirydd y Cyngor Sir)**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MôN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **15 Medi 2015** |
| **PWNC :** | **Enwebu Aelod i'r Panel Rhiant Corfforaethol** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Swyddog Sgriwtini**<br>**01248752039**<br>**gwrce@anglesey.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

1.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio yn enwebu un aelod o'r Pwyllgor i eistedd ar Panel Rhiant Corfforaethol o Mai 2015 i Mai 2016.Oherwydd bod Cynghorydd Dylan Rees wedi ymgymryd â'r rôl flwyddyn ddiwethaf argymell pellach bod yn cael eu henwebu unwaith eto oherwydd ei fod wedi datblygu gwybodaeth o'r gwaith.

## 2.0 RHESWM

2.1 Pwrpas y Panel Rhiant Corfforaethol yw gweithredu ar ran y Cyngor i sicrhau bod yr holl wasanaethau sydd â chyfrifoldeb i blant y gofelir amdanynt, pobl ifanc a rhai'n gadael gofal o safon uchel ac yn gwella cyfleon bywyd plant y gofelir amdanynt i fod fel eu cyfoedion. Mae o ddeutu 4 cyfarfod arferol o'r Panel phob blwyddyn ond mae phosib cael cyfarfodydd ychwanegol Yr aelod a enwebwyd i eistedd ar y Panel o Mai 2014 i Mai 2015 oedd y Cynghorydd Dylan Rees.

Awdur: Geraint Wyn Roberts
Teitl Swydd: Swyddog Sgriwtini
Dyddiad: 5 Awst 2015

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Trosolwg a Sgriwtini - Partneriaethau ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **15 Medi 2015** |
| **Pwnc:** | **Adolygiad Blynyddol o Bartneriaeth Dai Ynys Môn** |
| **Aelod Portffolio:** | **Aled M. Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif ffôn:<br>E-bost: | **Lucy Reynolds, Rheolydd y Strategaeth Dai a Datblygiad**<br>**Est. 2555**<br>**lucyreynolds@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pawb** |

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

i. Hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf ar waith Partneriaeth Dai Ynys Môn i'r Pwyllgor sy'n golygu y bydd modd i Bwyllgor Trosolwg a Sgriwtini Partneriaethau Cyngor Sir Ynys Môn fonitro cynnydd y Bartneriaeth. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan y Bartneriaeth yn ystod blwyddyn gyntaf ei gweithrediad. Mae'n edrych ar ystyriaethau ar gyfer y dyfodol i'r Bartneriaeth ac yn ystyried i ba raddau y mae'r Bartneriaeth wedi diwallu ei waith yn unol â'r hyn a osodwyd yn y Cylch Gorchwyl.

ii. Gofynnir i Aelodau gyflwyno sylwadau ar berfformiad y Bartneriaeth ac unrhyw feysydd lle gellid ei chryfhau er mwyn cyflawni blaenoriaethau ar y cyd.

## 2. Cefndir

- Cyfarfu Partneriaeth Dai Ynys Môn am y tro cyntaf ym mis Medi 2014. Cafodd ei sefydlu oherwydd mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i ddarparu'r gwasanaethu y mae'r ynys eu hangen o ran cartrefi a thai. Mae'r Bartneriaeth yn anelu at sicrhau dull mwy strategol ac integredig mewn perthynas â thai yn seiliedig ar y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer Ynys Môn. Y nod yw y bydd y Bartneriaeth yn cynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â'i amcanion corfforaethol gan gynnwys:
- Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
- Adnewyddu ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
- Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi

- Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned

i. Mae'r Bartneriaeth yn diwallu swyddogaeth bwysig fel fforwm ymgynghorol ar gyfer datblygu a chyflawni'r Strategaeth Dai Leol ar gyfer Ynys Môn. Mae'n gyfle i'r sefydliadau sy'n gysylltiedig gydweithio ar dai a phrosiectau cysylltiedig sy'n cyfrannu at y Strategaeth Dai Leol.

ii. Mae Cylch Gorchwyl (CG) llawn y Bartneriaeth ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn. Yn y CG dywedir fel a ganlyn:

> Pwrpas y Bartneriaeth yw darparu fforwm i aelodau weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r Strategaeth Dai Leol a bod yn llais ar gyfer tai ym Môn. Bydd y Bartneriaeth yn allweddol mewn perthynas â:
>
> - Darparu arweiniad strategol;
> - Llunio a gosod yr agenda dai;
> - Adeiladu cydberthnasau a dylanwadu ar benderfyniadau er budd Ynys Môn;
> - Denu adnoddau o ffynonellau traddodiadol a ffynonellau amgen;
> - Gweithio gyda'n gilydd i wella'r cyflenwad o dai a'u hansawdd; a
> - Creu cymunedau cynaliadwy ym Môn, yn arbennig mewn perthynas â darparu Strategaeth Dai Leol Ynys Môn.

iii. Mae'r aelodau'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r prif bartneriaid strategol ar gyfer tai, yn fewnol ac yn allanol. Mae'r partneriaid allanol canlynol yn aelodau: Grŵp Cynefin, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Cymdeithas Tai Pennaf, Heddlu Gogledd Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Gwerthwyr Tai, Fforwm Landlordiaid Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr, Y Gwasanaeth Prawf, Horizon, Y Fforwm Digartrefedd .

iv. Mae cynrychiolwyr mewnol yn cynnwys: Y Rhaglen Ynys Ynni, Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaethau Tai, Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Rheolydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Rheolydd y Strategaeth Dai a Datblygiad.

## 3. Cynnydd hyd yma

Cyfarfu'r Bartneriaeth am y tro cyntaf ar 15 Medi 2014

i. Hyd yma, cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Bartneriaeth. Bwriedir cynnal cyfarfodydd bob chwarter. Cafwyd cyfarfod ychwanegol eleni fel y gallai'r Bartneriaeth roi mewnbwn i ddrafft terfynol y Strategaeth Dai Leol a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

ii. Roedd cyfarfodydd cychwynnol yn cynnwys trafodaethau ynghylch ffurf y Bartneriaeth a chytuno ar y Cylch Gorchwyl. Yn unol â'r cylch gorchwyl mae Cadeirydd y Bartneriaeth yn amrywio bob yn ail rhwng cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol a Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Cytunwyd mai Paul

Diggory, Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Gogledd Cymru fyddai'r Cadeirydd am y ddwy flynedd gyntaf.

iii. O ran eitemau ar y rhaglen, canolbwyntiodd cyfarfodydd cyntaf y Bartneriaeth ar drafod y Strategaeth Dai newydd ar gyfer Ynys Môn a oedd wedi datblygu i'r cyfnod drafft pan lansiwyd y Bartneriaeth. Fel hyn, roedd modd i'r Bartneriaeth fod yn ymwybodol am y materion yr oedd y Cyngor wedi eu nodi fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer tai am y 5 mlynedd nesaf a thrafod y modd y byddid yn cyflawni'r canlyniadau.

iv. Mae cyfarfodydd wedi galluogi partneriaid i gael gwell gwybodaeth am y prif faterion tai sy'n effeithio ar Ynys Môn ac i rannu persbectif eu gwahanol sefydliadau o ran canlyniadau'r materion hyn ac agwedd eu sefydliadau tuag at y rhain.

v. Gwnaed cyflwyniadau i'r Bartneriaeth ynghylch materion o bwys mawr neu sy'n effeithio ar dai yn Ynys Môn. Roedd y rhain yn cynnwys

- Wylfa Newydd a llety i weithwyr
- Tai Gofal Ychwanegol ar Ynys Môn
- Strategaeth Cartrefi Gweigion
- Rhan II Deddf Tai (Cymru) – atal digartrefedd

vi. Dyma oedd llwyddiannau allweddol y Bartneriaeth yn ystod y flwyddyn gyntaf

- Cwblhau a mabwysiadu fel Partneriaeth y Strategaeth Dai Leol ar gyfer 2014-19 sy'n yrrwr strategol canolog ar gyfer y modd y bydd Ynys Môn yn ymdrin â materion tai dros y pedair blynedd nesaf.
- Mwy o ddealltwriaeth o effeithiau Wylfa Newydd o ran materion tai a gwneud penderfyniad 'mewn egwyddor' i is-grŵp o'r Bartneriaeth weithredu fel grŵp llywio ar gyfer y prosiect Hyb Tai.
- Cychwyn dull partneriaeth o fynd i'r afael â dyletswyddau newydd sy'n ymwneud â digartrefedd ac atal digartrefedd yn Rhan II Deddf Tai (Cymru) 2014

vii. Bydd rhaglen waith ar gyfer y Bartneriaeth yn cael ei chytuno gyda'r Cadeirydd a'r Aelodau. Fodd bynnag, disgwylir i feysydd gwaith allweddol gynnwys yr isod:

- Adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar fonitro'r cynllun gweithredu ar gyfer Strategaeth Dai Leol Ynys Môn am 2014-19. Nodwch os gwelwch yn dda fod Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr 2015, wedi gofyn am adroddiad blynyddol ar berfformiad/cynnydd yn erbyn targedau allweddol y Strategaeth Dai Leol.
- Ymateb fel Partneriaeth i'r Ymgynghoriad cyn Cyflwyno Cais 2 (PAC 2) gan Horizon y disgwylir iddo gael ei gynnal yn ystod yr hydref 2015
- Sefydlu dull partneriaeth o ymdrin â mater y boblogaeth sy'n heneiddio a'r angen i ddarparu gwasanaethau ardderchog drwy sicrhau'r cymysgedd iawn o wasanaethau tai, gofal a chymorth i bobl hŷn mewn modd cost effeithiol.

## 4. Casgliadau

i. Ym marn y Gwasanaethau Tai, mae blwyddyn gyntaf y Bartneriaeth wedi bod yn llwyddiannus o ran caniatáu i'r adran rannu materion tai allweddol a all fod yn benodol i Ynys Môn gyda Phartneriaid a helpu i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin ar lefel uchel yn y sefydliadau hyn.

ii. Wrth symud ymlaen, mae'n bwysig dysgu o brofiadau'r flwyddyn gyntaf er mwyn gwella'r Bartneriaeth ymhellach. Mae presenoldeb aelodau'r Bartneriaeth wedi bod yn dda yn gyffredinol. Mae peth pryder fod aelodau sy'n cynrychioli sefydliadau nad ydynt yn gysylltiedig â thai yn llai tebygol o fynychu. Mae'n bwysig pwysleisio bod y cyfarfodydd hyn yn berthnasol iddynt hwythau oherwydd mae'r Cyngor yn elwa ar eu persbectif ehangach a all helpu i sicrhau gwariant o gyfeiriad tai ar raglenni cefnogol megis atal trosedd, mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol a chynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.

iii. Bwriedir cynnal adolygiad o weithrediad y Bartneriaeth yn y cyfarfod o'r Bartneriaeth ym mis Hydref. Gofynnir i'r holl bartneriaid ddarparu adborth ar effeithiolrwydd y Bartneriaeth ac i ba raddau y mae'r Bartneriaeth wedi bod o fudd iddynt hwy a'u sefydliadau.

iv. Cynigir fod cynllun gwaith blynyddol ar gyfer y bartneriaeth yn cael ei greu. Gyda mewnbwn gan aelodau Partneriaeth Dai Ynys Môn, byddir yn cytuno ar y pynciau a fydd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod. Wrth ddewis y pynciau blaenoriaeth hyn, byddai allbynnau disgwyliedig y cyfarfodydd hyn hefyd yn cael eu hegluro. Mae hyn gyda'r nod o symud y cyfarfodydd y tu draw i fforwm drafod i gorff sy'n cytuno ac yn cyflawni camau gweithredu.

## 5. Argymhelliad i'r Pwyllgor

Argymhellir bod y Pwyllgor yn codi cynnwys yr adroddiad ac yn gwneud unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r modd y gellir cryfhau perfformiad y bartneriaeth er mwyn cyflawni cyd-flaenoriaethau.

## Dogfennau Cefndir

Cylch Gorchwyl, Partneriaeth Dai Ynys Môn
Strategaeth Dai Leol Ynys Môn 2014-19

| Cylch Gorchwyl (Drafft) Partneriaeth Dai Ynys Môn<br><br>Hydref 2014 |
|---|

**1.0 Enw'r Partneriaeth**:

1.1 Partneriaeth Dai Ynys Môn

**2.0 Pwrpas Cyffredinol**:

2.1 Pwrpas y Bartneriaeth yw darparu fforwm i aelodau weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r Strategaeth Dai Leol a bod yn llais ar gyfer tai ym Môn. Bydd y Bartneriaeth yn allweddol mewn perthynas â:

- Darparu arweiniad strategol;
- Llunio a gosod yr agenda dai;
- Adeiladu cydberthnasau a dylanwadu ar benderfyniadau er budd Ynys Môn;
- Denu adnoddau o ffynonellau traddodiadol a ffynonellau amgen;
- Gweithio gyda'n gilydd i wella'r cyflenwad o dai a'u hansawdd; a
- Creu cymunedau cynaliadwy ym Môn, yn arbennig mewn perthynas â darparu Strategaeth Dai Leol Ynys Môn.

2.2 Bydd y Bartneriaeth yn cydweithio, yn rhannu arbenigedd ac adnoddau i ddod ag arbedion i feysydd cyffredin o waith, sy'n ychwanegu gwerth i'r canlyniadau, ac yn cynhyrchu gwerth am arian i aelodau, preswylwyr a chymunedau Ynys Môn.

2.3 Bydd y bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector preifat yn cael ei ffurfioli er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf i breswylwyr Ynys Môn.

**3.0 Swyddogaethau'r Bartneriaeth Dai**

3.1 Yn ei waith gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, bydd Partneriaeth Dai Ynys Môn yn cefnogi'r rôl hanfodol a chwaraeir gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn lleisio materion a nodwyd gan gymunedau i gefnogi cydlyniant cymunedol trwy'r cynllun integredig sengl.

4.2 Lobïo ar lefel ranbarthol neu genedlaethol a chodi materion y byddai o fudd gweithredu arnynt.

4.3 Goruchwylio a rheoli perfformiad gyda darparu'r Strategaeth Dai Leol.

4.4 Osgoi dyblygu dianghenraid a phroblemau o ran adnoddau mewn gwaith partneriaethol ar faterion strategol.

4.5 Diweddaru'r cynllun gweithredu mewn cydweithrediad â chyrff a phartneriaid gweithredu.

4.6 Sefydlu a chynnal trefniant effeithiol er mwyn nodi ac asesu anghenion tai ym Môn yn barhaol a hyrwyddo arfer dda o ran comisiynu, cefnogi a defnyddio gwaith ymchwil sy'n ymwneud â thai megis cydweithio agos gyda'r Uned Datblygu Lleol ar y Cyd, Awdurdodau Lleol cyfagos a datblygwyr rhaglenni economaidd mawr er mwyn cefnogi cydlyniant.

4.7 Annog, gwneud sylwadau (a lle bo'n briodol, cymeradwyo) bidiau am adnoddau i ffynonellau cyllid Ewropeaidd, rhanbarthol a chenedlaethol yn unol â'r angen strategol.

4.8 Sefydlu a chynnal trefniadau effeithiol i hyrwyddo a sicrhau cyfranogiad preswylwyr ar draws yr holl ddeiliadaethau mewn materion tai neu rai yn ymwneud â thai.

4.9 Darparu fframwaith ar gyfer gweithio ar y cyd a chydweithio rhwng awdurdodau a phartneriaid yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol sy'n cyfrannu tuag at ddarparu Strategaeth Dai Lleol Ynys Môn.

4.10 Hyrwyddo gwelliant parhaus yn ansawdd y tai a chymunedau cynaliadwy a chydlynol ar draws yr Ynys.

4.11 Sefydlu a chynnal trefniadau i sicrhau cydweithrediad effeithiol rhwng grwpiau, sefydliadau, asiantaethau a phartneriaethau ar draws sectorau ym Môn er mwyn hyrwyddo tai a chysylltiadau presennol gyda, e.e. Adfywio Economaidd, Addysg, yr Amgylchedd, Iechyd, Heddlu.

4.12 Sefydlu a chynnal trefniadau effeithiol i gyfathrebu gwaith y Bartneriaeth a'i hamcanion i breswylwyr yr Ynys yn ogystal â darparwyr gwasanaeth, landlordiaid, datblygwyr tai, cyllidwyr, grwpiau, sefydliadau, asiantaethau a phartneriaethau sy'n darparu gwasanaethau yn y maes tai neu faes perthnasol.

4.13 Nodi cyfleon ar gyfer sicrhau'r fantais fwyaf i'r gymuned, fel cyfleon adfywio sy'n cael eu harwain gan dai, gwneud y mwyaf o gyfleon cynlluniau prentisiaeth, sicrhau'r manteision mwyaf i'r cadwyni cyflenwi lleol, cydweithredu o ran datblygu gwasanaethau sy'n cefnogi cynhwysiad cymdeithasol ac ariannol.

4.14 Sefydlu a chynnal trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob agwedd o waith y Bartneriaeth.

4.15 Sefydlu a chynnal trefniadau effeithiol i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ym mhob agwedd o waith y Bartneriaeth.

4.16 Hyrwyddo arloesedd a chydweithio ymysg partneriaid y Bartneriaeth, gan atgyfnerthu adnoddau a sgiliau lle mae hynny'n berthnasol.

4.17 Datblygu a defnyddio perthnasau gweithio cadarnhaol, agored a hyblyg gyda chynllunwyr, partneriaid a chydranddeiliaid er mwyn darparu tai priodol, fforddiadwy a chynaliadwy yn y lleoliadau iawn.

4.18 Datblygu arferion a rennir a ffyrdd o weithio i sicrhau mwy o gysondeb ymysg landlordiaid er mwyn gwella mynediad i wasanaethau a safonau'r gwasanaeth a ddarperir.

4.19 Datblygu a chydlynu mewnbwn gan ddarparwyr fel y gellir rheoli cymdogaethau mewn modd cynaliadwy, gan adeiladu ar drefniadau gweithio ardal adfywio strategol ehangach fel y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a Wylfa Newydd.

## 5.0 Aelodau Partneriaeth Dai Ynys Môn

5.1 Yn bennaf, bydd y Bartneriaeth Dai yn cynnwys cynrychiolwyr o blith y cydranddeiliaid allweddol yn y maes tai ym Môn. Bydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith y prif bartneriaethau strategol[1] sy'n gweithredu ar y cyd, er mwyn gwella a darparu gwasanaethau.

| Swyddogaeth | Yn cynrychioli |
|---|---|
| Uwch Dîm Arweinyddiaeth - un aelod | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Pwyllgor Tai | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Pennaeth y Gwasanaethau Tai | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio | Cyngor Sir Ynys Môn |

[1] Gall aelodau craidd y Partneriaethau hyn sydd hefyd yn gwasanaethu ar fyrddau partneriaetholu eraill gynrychioli'r Partneriaethau hyn. Cyfeirir yn benodol yma at Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Diogelwch Cymunedol, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

| | |
|---|---|
| Rheolwr yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn |
| Rheolwr y Strategaeth Dai a Datblygu | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Prif Weithredwyr ac / neu Gyfarwyddwr | Grŵp Cynefin<br>Cymdeithas Dai Gogledd Cymru<br>Pennaf |
| Cynrychiolydd | Heddlu Gogledd Cymru |
| Cynrychiolydd | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Cynrychiolydd | Cymdeithas Genedlaethol Gwerthwyr Tai |
| Cadeirydd | Fforwm Landlordiaid Ynys Môn |
| Cynrychiolydd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Cynrychiolydd | Gwasanaeth Prawf |
| Cynrychiolydd | Horizon |
| Cynrychiolydd | Fforwm Digartrefedd |
| Cynrychiolydd | Rhaglen Ynys Ynni |

5.2 Dylai'r cynrychiolwyr fydd yn mynychu fod ar lefel uwch a chyda'r awdurdod i siarad ar ran ac i wneud ymrwymiad ar ran eu sefydliad.

5.3 Bydd y Cadeirydd yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd o'i ethol. Bydd yr Awdurdod Lleol a chynrychiolydd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gwasanaethu fel Cadeirydd bob yn ail. Bydd yr Is-Gadeirydd hefyd yn cael ei ethol bob dwy flynedd ac yr un modd, bydd aelod o'r Awdurdod Lleol a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gwasanaethu fel Is-Gadeirydd bob yn ail.

5.4 Bydd gan y Bartneriaeth awdurdod i wahodd a chynnwys aelodau newydd fel bydd angen. Os bydd y mwyafrif o aelodau'r Bartneriaeth yn cefnogi'r cynnig i gynnwys aelodau newydd yna bydd yr aelodau newydd hynny yn cael eu dynodi naill ai yn Aelodau wedi'u Cyfethol neu'n Aelodau Cysylltiol ar sail eu cyfraniad i'r maes tai ym Môn.

**5.6 Gweithgorau**

5.6.1 Gellir sefydlu Is-grwpiau i yrru'r rhaglen dai strategol. Bydd mentor o'r Bartneriaeth Dai yn cael ei benodi ar gyfer pob is-grŵp i weithio gyda hwy a phenderfynu ar ganlyniadau priodol i gynllun gweithredu.

5.6.2 Bydd yr is-grwpiau yn rhoi crynodeb i'r Bartneriaeth Dai o'u cynnydd a'u canlyniadau ym mhob cyfarfod, gyda chofnodion o'r is-grwpiau yn cael eu rhoi ar wefan y Bartneriaeth Dai er gwybodaeth.

5.6.3 Hefyd, o bryd i'w gilydd, bydd y Bartneriaeth Dai yn sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i wneud darnau penodol o waith. Bydd i'r rhain brîff clir ar y deilliannau, canlyniadau sydd eu hangen a byddant yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r Bartneriaeth Dai.

**6.0 Trefniadau Gweithredu'r Bartneriaeth Dai**

6.1 Bydd Rheolwr Strategaeth Dai a Datblygu Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi ac yn gwasanaethu swyddogaethau gweinyddol y Bartneriaeth Dai.

6.2 Bydd Rheolwr y Strategaeth Dai a Datblygu yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r broses o ddatblygu, cynhyrchu a darparu strategaethau tai, cynlluniau gweithredu, prosiectau a mentrau i helpu i gwrdd ag amcanion a nodwyd ac i sicrhau bod busnes y Bartneriaeth yn cael ei gynnal yn effeithiol.

6.3 Bydd y Bartneriaeth yn cyfarfod o leiaf 3 gwaith y flwyddyn, gyda digwyddiad tai blynyddol i hyrwyddo gwaith y Bartneriaeth a chyfarfodydd briffio penodol eraill, pan gytunir bod angen hynny.

6.4 Pe bai aelod o'r Bartneriaeth yn dymuno cynnwys eitem ar raglen y Bartneriaeth, dylai ddweud wrth Rheolwr y Strategaeth Dai o leiaf 10 niwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

6.5 Bydd y rhaglen derfynol a'r adroddiadau ar gyfer y cyfarfod o'r Bartneriaeth ar gael ar ffurf electronig ac ar bapur o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

6.6 Ar gyfer cyfarfodydd y Bartneriaeth, rhaid cael o leiaf 3 chorff gwahanol o blith yr aelodau yn bresennol i ffurfio cworwm.

6.7 Bydd y Bartneriaeth yn cyflawni ei waith mewn ffordd agored a thryloyw ac mewn ysbryd o gonsensws a pharch dwyochrog. Bydd y Bartneriaeth, felly, yn ceisio datrys materion drwy gonsensws. Os na ellir cael consensws, bydd y Cadeirydd yn gofyn am bleidlais, a bydd mwyafrif syml yn ennill y bleidlais. Os bydd angen, bydd y Cadeirydd yn gofyn am ail bleidlais neu fe fydd yn defnyddio ei b/phleidlais fwrw i sicrhau penderfyniad.

6.8 Bydd cyfarfodydd o’r Bartneriaeth yn agored – gall unrhyw un wrando ar y drafodaeth, fel sylwedyddion.

6.9 Bydd cyfarfodydd a gohebiaeth y Bartneriaeth yn ddwyieithog a bydd offer cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod. Bydd yr ohebiaeth, rhaglenni ac adroddiadau yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog (ac eithrio’r rhai a baratowyd gan gyrff allanol).

**7.0 Atebolrwydd**

7.1 Bydd y Bartneriaeth, fel corff partneriaethol, yn atebol i’r Bwrdd Gwasanaeth Lleol a bydd yn adrodd i fforymau eraill gan gynnwys y Bwrdd Rhaglen Ynys Fenter, Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a Phartneriaeth Cyngor Sir Ynys Môn, Byrddau Rheoli’r Cymdeithasau Tai sydd yn aelodau o’r Bartneriaeth Dai, Llywodraeth Cymru, byrddau archwilio perthnasol, a'r gymuned ehangach o grwpiau, asiantaethau a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yn y maes tai.

7.2 Bydd aelodau'n atebol i: (a) eu sefydliad cyflogi unigol hwy / cyrff cynrychioliadol am eu cyfraniadau unigol, a (b) i'r Bartneriaeth Dai fel rhan o'u dyletswydd i gydweithredu.


7.3 Mae’r hyn a ddisgwylir gan aelodau'r Bartneriaeth Dai wedi ei amlinellu yn Atodiad 2.

Dyddiad Cytuno ar y Cylch Gorchwyl …………………………………………

Dyddiad adolygu (pob 2 flynedd) ………………………………………

ATODIAD 1

Strwythur arfaethedig yn dangos yr is-grwpiau presennol (@20/06/14) – i'w benderfynu gan Aelodau'r Bartneriaeth fel y gellir cyflawni Strategaeth Dai Leol Ynys Môn



**ATODIAD 2 – CYFARWYDDYD I AELODAU**

Beth a ddisgwylir gan aelodau Partneriaeth Dai Ynys Môn?

Rhaid i aelodau:

- Sicrhau bod eu sefydliad yn cael ei gynrychioli mewn cyfarfodydd o’r Bartneriaeth gan Uwch Swyddog (neu ddirprwy a enwebwyd) a fydd yn gallu cyfrannu ar lefel strategol a chydag awdurdod i i wneud ymrwymiadau ar ran eu sefydliad.
- Sicrhau bod eu sefydliad yn cael ei gynrychioli’n briodol ym mhob cyfarfod. Bydd rhestr bresenoldeb yn cael ei chylchredeg gyda chofnodion pob cyfarfod.
- Cyfrannu tuag at waith y Bartneriaeth drwy gymryd rhan mewn ffrydiau gwaith, awgrymu themâu ar gyfer cyfarfodydd / seminarau ac eitemau ar y rhaglen.
- Cyfrannu tuag at siapio cyfeiriad strategol a pholisi.
- Sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ystyried egwyddorion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o ran darpariaeth ar gyfer ac ar ran Bartneriaeth Dai Ynys Môn, gan sicrhau’r arfer orau a bod unrhyw ofynion cyfreithiol priodol a pherthnasol yn cael eu dilyn.
- Lle y gofynnir am hynny, bod yn barod i weithredu fel Mentor i is-grwpiau a Grwpiau Tasg a Gorffen ac adrodd yn ôl i'r Bartneriaeth Dai ar weithgareddau'r grŵp y maent yn gweithredu fel Mentor iddo.
- Annog a helpu partneriaid i alinio eu polisïau a'u strategaethau gyda Strategaeth Dai Leol Ynys Môn.
- Sicrhau bod y Strategaeth Dai Leol yn gyfredol o safbwynt gweithredu ac ar faterion sydd i'w hystyried, wrth i gynlluniau gweithredu gael eu diweddaru a’u a’u symud yn eublaenau.

| Cyngor Syr Ynys Mon | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **15th Medi 2015** |
| **PWNC :** | **Diweddariad Blynyddol – Trefniadau Diogelu ar gyfer Oedolion Bregus ym Môn** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Cynghorydd; Aled Morris Jones** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Olwena Davey – Cydlynydd Ammddiffyn Oedolion Bregus**<br>**01248 752061**<br>**odxss@anglesey.gov.uk** |

**ARGYMHELLION**

**A1.** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag oedolion diogelu fel y'i diffinnir yn yr adroddiad atodedig, Ynys Amddiffyn Llun i Oedolion Agored i Niwed, Highlight Adroddiad 2014/15 -Appendix 1

**A2.** Nodi a chytuno ar y datblygiadau a nodir yn adran 4 yr Adroddiad Amlygu'r sef.

- Gwasanaethau Oedolion ac asiantaethau partner allweddol i adnabod cytuno a gweithredu cynllun gweithredu i baratoi ar gyfer y canllawiau diogelu newydd fel yr amlinellir yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a Deddf Lles.
- Gwerthusiad pellach o ddioddefwyr honedig, teuluoedd a phrofiadau troseddwr honedig o ymgysylltu â'r broses POVA. Yn arbennig, mewn perthynas ag ansawdd, dwyster ac effeithiolrwydd cyfathrebu ar draws y cyfnodau ymchwilio
- archwilio ffeiliau achos cryfach i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaethau. Gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol i raeadru dysgu a gwella darpariaeth gwasanaeth.
- Er mwyn cydnabod y rôl Diogelu gwell, fframwaith hyfforddi lleol gael ei gwblhau a'i roi ar waith. Gwerthusiad o'r cynllun hwn gael ei wneud ar y cyd rhwng y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu ac cydlynydd Oedolion Agored i Niwed.
- Cydnabod bod rôl eiriolaeth yn rhan annatod o fewn y broses, ac mae angen ei gryfhau i fod ar gael ar draws yr holl feysydd gwasanaeth y ddarpariaeth honno.
- Cydnabod y gall Diogelu pryderon yn codi drwy faterion ansawdd yn darparu gofal. P'un a yw hyn yn digwydd yng nghartref unigolion eu hunain neu mewn lleoliad preswyl, argymhellir bod swyddogaeth busnes priodol yn cael ei sefydlu o fewn y Gwasanaethau Oedolion i sicrhau bod monitro contractau a gofal ddarpariaeth yn gadarn.

**A3** Nodi a diweddaru ynghylch Diogelu Oedolion Rhanbarthol Bwrdd a trefniada

Lleo Atodiad2

**A4** Nodi a chytuno ar y Argymhellion yn yr adroddiad hwn sef: **-**

- Bod yr Aelodau'n cefnogi'r strwythur ar gyfer y Bwrdd rhanbarthol Gogledd Cymru Diogelu Oedolion (NWSAB). Bydd y NWSAB cael ei gefnogi gan grwpiau sy'n seiliedig ar swyddogaeth-ranbarthol a Grwpiau Cyflawni is-ranbarthol.

- Bod cyllid ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion yn parhau i gynnwys o fewn y trafodaethau gyllideb gyfredol ar gyfer 2016/17

A5 Er mwyn cefnogi ymgysylltu ag aelodau parhaus yn y Agenda Diogelu cyffredinol.

**<u>2.0Rhesymeg</u>**

2.1 Diogelu oedolion sy'n agored i niwed yn hanfodol o safbwynt dyngarol a chorfforaethol. Canllawiau o dan ran 7, adran 131 (1) o'r Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn diffinio'r canlynol.

**Adran 126, sy'n diffinio 'oedolyn mewn perygl', yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud, neu beri iddo gael ei wneud, ymholiadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a yw person yn oedolyn mewn perygl; a phenderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.**

**Adran 127, sy'n cyflwyno amddiffyn oedolion a gorchmynion cymorth (APSOs). Mae rheoliadau a wneir o dan adran 127 (9) cyfyngu ar y personau neu'r categorïau o bersonau a all weithredu fel 'swyddog awdurdodedig'.**

**Adran 128, sy'n cyflwyno dyletswydd statudol ar 'partneriaid perthnasol' fel y'i diffinnir gan adran 162 (4) i roi gwybod i'r awdurdod lleol o oedolyn mewn perygl o dan amgylchiadau penodedig.**

2.2 Mae diogelu yn rhan greiddiol o'r ddyletswydd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Felly, mae'n hanfodol bod gennym strwythurau ar waith a systemau effeithiol o waith i gyflawni'r nod hwn. Felly, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod strwythurau a systemau yn gynaliadwy a man diogelu wrth wraidd ein gwaith ar draws y sector cyhoeddus, ac yn y sector gofal yn gyffredinol.

Nid yw diogelu dim ond mater i asiantaethau statudol, dylai fod yn ein holl fusnes. Darparwyr Gwasanaethau, cyrff statudol, yr heddlu ac mewn gwirionedd pob dinesydd rôl i'w chwarae yn hyn.

**ATODIAD 1- Ynys Môn- Diogelu Oedolion Bregus, Adroddiad Amlygu 2014/15**

**ATODIAD 2- TREFNIADAU LLEOL A RHANBARTHOL BWRDD DIOGELU OEDOLION**

**ATODIAD 1**

**YNYS MÔN**
**AMDDIFFYN OEDOLION BREGUS**

**ADRODDIAD HIGHLIGHT 2014/15**

## 1. Cyflwyniad - Materion allweddol

1.1 Mae Polisi Cymru a Gweithdrefn ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag camdriniaeth Bwriedir i arwain y gwaith diogelu pawb sy'n ymwneud â lles oedolion agored i niwed a gyflogir yn y sectorau statudol, trydydd ac annibynnol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, yr heddlu ac eraill gwasanaethau.

1.2 Gweithio rhyngasiantaethol da yn sicrhau bod pob cyfeiriad yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon gyda'r nod o wella perfformiad yn barhaus ac yn diogelu dinasyddion mwyaf agored i niwed o Ynys Môn

1.3 Mae'r defnydd o Dîm Datblygu Ymarfer BIPBC i gefnogi cartrefi gofal ar yr ynys yn cael ei gydnabod fel ymyriad effeithiol o ran gwella arferion gofal wrth hyrwyddo gofal o ansawdd a lleihau atgyfeiriadau diogelu. Mewn achosion o'r fath staff nyrsio proffesiynol o BIPBC yn darparu cymorth i gartrefi ar ffurf hyfforddiant ac arweiniad gofal i sicrhau gwelliannau yn y safonau dogfennaeth ac arferion i gefnogi darparu gofal nyrsio da. Mae angen gwerthuso'n llawn gan y ddau ymarferydd a gofal safbwynt y darparwr ar gyfer buddsoddi parhaus effaith lawn eu rôl gefnogol.

1.4 Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r agenda diogelu ar lefel Gorfforaethol ac rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag adrannau eraill o fewn y Cyngor i hyrwyddo'r Cyfrifoldeb corfforaethol ar gyfer diogelu. .

1.5 Themâu allweddol sy'n codi o'r atgyfeiriadau yn cael eu materion yn ymwneud â chodi a chario, gofal Dementia, rheoli meddyginiaeth, gwybodaeth wael gan ddarparwyr gofal o'r llwybrau ar gyfer atgyfeiriadau amserol i wasanaethau arbenigol, a cham-drin ariannol.

1.6 Mae cydlynydd Oedolion Agored i Niwed yn awr yn ei swydd fel mesur dros dro hyd nes y cynlluniau terfynol yr Awdurdod Lleol ar gyfer datblygu Uned Ddiogelu Gorfforaethol sy'n gweithio ar draws gwasanaethau Oedolion a Phlant

## 2. Hyfforddiant

2.1 Mae diogelu presennol Oedolion a fframweithiau Phlant wedi ei gwreiddio'n ffurfiol yn y broses Sefydlu Corfforaethol ar gyfer pob gweithiwr newydd.

2.2 Gwasanaethau oedolion wedi cydnabod bod â rôl newidiol hyfforddiant arbenigol AGGCC wrth gynnal ymchwiliadau ar sail aml-asiantaethol yn gam allweddol i wella hyder ac arfer ymarferwyr rheng flaen wrth eu rolau yn parhau i esblygu.

2.3 Ar y rhaglen hyfforddi barhaus yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol sicrhau bod staff yn darparu gofal ar draws y sectorau gofal yn ymwybodol o Bolisi a Gweithdrefnau Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed

2.3 Mae'r Oedolion newydd a'r Ffframwaith Hyfforddiant Mae Plant bron wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo a fydd yn cynnwys y Cyngor Gofal ar gyfer hyfforddiant diogelu Cymru ar draws y Cyngor ac i asiantaethau partner allweddol. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r ymagwedd Cymru gyfan er mwyn darparu cysondeb o ran ymwybyddiaeth.

**3. Crynodeb o Weithgaredd POVA**

- 165 o atgyfeiriadau POVA pan dderbyniwyd yn y cyfnod 2014/15. Gan fod y darlun isod yn dangos, mae hyn yn cynrychioli cynnydd cyson dros y tair blynedd diwethaf, gyda 134 yn 2012/13, 147 yn 2013/14 a 165 yn 2014/15.


- Mae data yn awgrymu bod y dioddefwr mwyaf nodweddiadol yn fenyw Pobl Hŷn sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, dioddef cam-drin emosiynol, seicolegol a chorfforol gan troseddwr gwrywaidd. Byddai hyn yn cyd-fynd â thueddiadau cenedlaethol.

- Y ganran uchaf o atgyfeiriadau POVA ar gyfer Pobl Hŷn ddilyn yn agos gan unigolion sydd â chyflyrau iechyd meddwl organig.




**Priodoldeb yr atgyfeiriadau a Dderbyniwyd**

- Fel y mae'r siart isod yn dangos, bu cynnydd cyson yn nifer yr atgyfeiriadau yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi bod.
- O'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd, mae'n amlwg bod nifer yr atgyfeiriadau amhriodol wedi gostwng o 34 yn 2013/14 i 18 yn 2014/15.
- Mae'n amlwg bod nifer y cyfeiriadau nad yw'n cwrdd â'r trothwy hefyd yn uchel. Mae hyn eto, yn unol â thueddiadau cenedlaethol.




**Proffiliau Defnyddwyr Gwasanaeth**

- Mae'r graff isod yn dangos y proffiliau defnyddwyr gwasanaeth allweddol fel dioddefwyr cam-drin honedig ar gyfer y cyfnod 2014/15.
- O'r 165 o atgyfeiriadau a dderbyniwyd, 43 o'r rhain yn perthyn i bobl hŷn. 29 o atgyfeiriadau perthyn i ddinasyddion sydd â chyflyrau iechyd meddwl organig a 21 o atgyfeiriadau i ddinasyddion sydd ag Anabledd Dysgu.
- Dinasyddion ag anghenion iechyd meddwl gweithredol yn cyfrif am 18 o atgyfeiriadau. Roedd y cyfeiriadau sy'n weddill mewn perthynas â dinasyddion gydag Anabledd Corfforol.




**Grŵp Ethnig o Dioddefwyr Honedig**

- Fel y mae'r tabl isod yn dangos, roedd y ethnigrwydd dioddefwyr gofnodwyd, mae'r mwyafrif helaeth o ddioddefwyr o darddiad Gwyn.

- O ystyried y ethnigrwydd poblogaeth o ddinasyddion ar yr ynys, byddai canran is o ddioddefwyr o darddiad ethnig Cymysg yn cael eu rhagweld. Fodd bynnag, gan mai dim ond un atgyfeiriad wedi'i dderbyn, byddai'r nifer hwn yn isel o gymharu â thueddiadau cenedlaethol ac yn dangos yr angen am ddatblygiad pellach a chodi ymwybyddiaeth.

| Ethnic Group | Cyfanswm 2014/2015 |
|---|---|
| Gwyn | 117 |
| Grŵp ethnig Cymysg | 1 |
| **Cyfanswm** | 118 |

**Proffil o'r tramgwyddwyr honedig**

- Gan fod y tabl hwn yn dangos, perthnasau (mab / merch / yng-nghyfraith) yn parhau i fod yn brif gyflawnwyr honedig o gam-drin.

- Gyda hyn mewn golwg, ac o ystyried bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn bobl hŷn, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Pobl Hŷn i godi ymwybyddiaeth o arwyddion, symptomau a mecanweithiau adrodd.

- Mae'r tabl yn dangos ymhellach bod staff y Sector Annibynnol a Defnyddwyr Gwasanaethau eraill yn fwy tebygol o fod yn y cyflawnwyr honedig hefyd.

- Diogelu dioddefwyr o staff yn cyflwyno ei heriau, fodd bynnag, rydym yn gweithio'n agos gyda darparwyr i sicrhau bod eu cam-drin yn cael ei nodi,

ymdrinnir â'r aelod o staff yn cael ei yn briodol i ddiogelu nid yn unig y dioddefwr honedig, ond hefyd dioddefwyr posibl eraill.

- Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gweithwyr Cymdeithasol a Darparwyr Gofal i gryfhau pecynnau gofal ac amddiffyn cynlluniau i leihau'r risg i ddioddefwyr posibl gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth eraill trwy asesu risg a rheoli achosion.


| Person (au ) honedig Yn gyfrifol am Gam-drin | Cyfanswm | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Anhysbys | 2014/2015 |
| Staff Y GIG | 3 | 3 | 0 | **6** |
| Staff y sector Annibynnol | 1 | 10 | 12 | **23** |
| Staff gofal cymdeithasol | 0 | 3 | 0 | **3** |
| Defnyddiwr Gwasanaeth Arall | 18 | 4 | 0 | **22** |
| Perthynas - gŵr neu wraig neu bartner | 12 | 4 | 0 | **16** |
| Perthynas - mab / merch / yng-nghyfraith | 11 | 15 | 0 | **26** |
| Perthynas - riant | 0 | 4 | 0 | **4** |
| Perthynas - arall (nodwch) | 3 | 3 | 0 | **6** |
| Cyfaill neu gydnabod | 10 | 7 | 0 | **17** |
| Cymydog | 2 | 1 | 0 | **3** |
| person anhysbys | 5 | 0 | 2 | **7** |
| Arall ( Dylech gynnwys plant o dan 18 oed ) | 0 | 1 | 0 | **1** |
| Cyfanswm | **65** | **55** | **14** | **134** |

**Statws y Honiadau Post Ymchwiliad**

- Fel y mae'r siart isod yn dangos, mae nifer y canlyniadau amhendant yn gyffredinol 27.1%. Gall hyn fod oherwydd nifer o ffactorau ac nid yw'n annhebyg i dueddiadau cenedlaethol.

- Ymchwiliad Post canfod 23.7% o achosion yn gyfartal i gael ei profedig / Cadarnhau neu ar Falans y Tebygolrwydd. Yn yr un modd nodedig, 18.6% eu gwrthbrofi neu Heb eu Cadarnhau. Dim ond canran fach iawn eu derbyn, neu'r Honiad Tynnwyd yn ôl.

- O ystyried y pwyslais yn newid o rôl AGGCC a'r niferoedd cymharol isel o atgyfeiriadau sy'n cyrraedd y trothwy o troseddoldeb i ymgysylltu ymchwiliad yr Heddlu, datblygu ymhellach hyfforddiant Ymchwiliad wedi cael ei amlygu fel angen o fewn y Fframwaith Hyfforddiant newydd.





**Mathau o Gamdriniaeth Honedig Dioddef**

- Cam-drin corfforol yn cyfrif am y meini prawf mwyaf adroddwyd o gam-drin gyda 50 o atgyfeiriadau dros y cyfnod 2014/15.

- Emosiynol a / neu Seicolegol aros yr uwchradd, gyda Esgeulustod a cham-drin ariannol yn derbyn cyfraddau atgyfeirio cyfartal. Honedig Cam-drin rhywiol yn parhau i fod yn gymharol isel gyda 12 o atgyfeiriadau.

- Mae canrannau o atgyfeiriadau fesul categori cam-drin honedig yn cyd-fynd â thueddiadau cenedlaethol.



**Yr Amgylchedd Lle Cam-drin honedig.**


- Gan fod y data isod yn dangos, dinasyddion yn berchen ar gartrefi yn parhau i fod y prif amgylchedd lle mae cam-drin yn digwydd.

| **Rhowch cam-drin honedig Digwyddodd** | **Cyfanswm 2014/2015** |
|---|---|
| Cartref eu hunain yn y gymuned | 60 |
| Cartref berthynas | 1 |
| Tenantiaeth â Chymorth | 4 |
| Cartref gofal - lle preswyl | 21 |
| Cartref gofal - lle nyrsio | 15 |
| Ysbyty , GIG | 7 |
| Hafan y tramgwyddwr honedig | 22 |
| Gofal dydd | 4 |
| Man cyhoeddus | 5 |
| Cyfanswm | 139 |

**Atgyfeiriadau Oedd y rheolir risg**

- Yn ystod y cyfnod 2014/15, 91.9% o'r atgyfeiriadau a nodwyd risg fel rheoli. Mae hyn yn dangos cynnydd sylweddol ers y flwyddyn flaenorol.

- A oedd y risg yn cael ei ddosbarthu fel 'heb ei reoli', mae hyn yn gysylltiedig ag ef i unigolion capacitated gwneud dewisiadau nad oedd wedi'u hargymell. Mewn achosion o'r fath, byddai'r Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda'r unigolion os ydynt yn cytuno.




**Atgyfeiriadau a arweiniodd yn y Gynhadledd Achos a Phresenoldeb**.

- Mae'r tabl isod yn dangos bod nifer cymharol isel o achosion i ben am Gynhadledd Achos. (Efallai na fydd DS. Mae rhai achosion ar gyfer 2014 // 15 wedi dod i'r casgliad yn yr ystadegau ar gyfer y cyfnod hwn). Mae hyn yn arwydd o'r risgiau yn cael sylw ac yn eu rheoli yn ystod y camau cyntaf o ymyrraeth aml-asiantaeth.

- Cynadleddau achos aml-asiantaeth yn darparu cyfleoedd i gynnwys teuluoedd a sicrhau cynllun gweithredu ar y cyd y cytunwyd arnynt diogelu. Fodd bynnag, ac fel data perfformiad yn cadarnhau yn unol â chyfarwyddebau unigol yn seiliedig ar eu gallu meddwl mae'n dal i fod yn anodd i leihau'r peryglon i bob dioddefwr honedig.

- Mae'n werth nodi bod angen i'r cyfranogiad dioddefwyr, perthnasau ac eiriolwyr mewn cynadleddau achos gael ei gynyddu, ac rydym wedi cymryd camau i sicrhau ymgysylltiad lawnaf pobl eraill arwyddocaol ar adegau allweddol yn ystod y broses ymchwilio.

| Cynhadledd Achos a fynychwyd | |
|---|---|
| Dim Cyfarfod | 107 |
| Defnyddwyr Gwasanaeth | 1 |
| gofalwr teulu | 15 |
| Cydlynydd Amddiffyn Oedolion | 4 |
| Rheolwr Arweiniol Dynodedig | 15 |
| AGC ( Rheolwr Gofal) | 26 |
| AGC (Contractau ) | 1 |
| AGC ( Darparu) | 1 |
| Iechyd , cychwynnol / cymuned / Bwrdd Iechyd Lleol | 15 |
| Heddlu | 3 |
| Tai | 1 |

| | |
|---|---|
| Regulator(s)/Inspector(s) CSSIW/HIW | 6 |
| asiantaeth ddarparu | 12 |
| Arall | 12 |
| **Cyfanswm** | **112** |

**4. Meysydd i'w datblygu**

4.1 Oedolion a phartneriaid allweddol i barhau â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu i baratoi ar gyfer y canllawiau diogelu fel yr amlinellir yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a Deddf Lles. Mae'r Bwrdd Diogelu Gwynedd a Môn yn amlinellu'r mecanweithiau a gyrwyr ar gyfer newid arferion sy'n cael eu rhoi ar waith gan reolwyr gwasanaethau allweddol ar draws y sectorau. Mae hyn yn cael ei gydnabod fel prif rôl y Cydgysylltydd Oedolion Bregus mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

4.2 Mae camau allweddol fydd y gwerthusiad o ddioddefwyr honedig, teuluoedd a phrofiadau tramgwyddwr honedig o ymgysylltu â'r broses, gan gyfeirio'n benodol at ansawdd, dwyster ac effeithiolrwydd cyfathrebu ar draws y cyfnodau ymchwilio. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r broses archwilio gan arwain at gynllun gweithredu perthnasol i wella ansawdd yn y pen draw.

4.3 Ar hyn o bryd rydym yn archwilio ffeiliau achos i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaethau. Rhagwelir y gall dysgu hwn yn cael ei rhaeadru i asiantaethau partner i wella safonau.

4.4 I gydnabod y rôl Diogelu estynedig, bydd cynllun hyfforddi lleol yn cael ei gwblhau a'i roi ar waith. Bydd y gwerthusiad cyffredinol y fframwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd gan y Rheolwr Diogelu a'r Cydlynydd Oedolion Agored i Niwed.

4.5 Rydym yn cydnabod bod rôl eiriolaeth yn rhan annatod o fewn y broses, ac mae angen ei gryfhau i fod ar gael ar draws yr holl feysydd gwasanaeth y ddarpariaeth honno.

4.6 Rydym yn cydnabod y gall materion Diogelu godi trwy materion ansawdd mewn darpariaeth gofal boed yng nghartref unigolyn ei hun neu mewn lleoliadau mewnol neu ofal preifat. Argymhellir bod swyddogaeth busnes priodol yn cael ei sefydlu o fewn y Gwasanaethau Oedolion i sicrhau bod monitro contractau a gofal ddarpariaeth yn gadarn.

4.7 Bydd gwaith datblygu pellach yn parhau gyda phartneriaid allweddol i godi ymwybyddiaeth o Ddiogelu, yn arbennig, gyda'r rhai sydd mewn perygl uwch o gam-drin neu oedd y cyfraddau atgyfeirio yn cael yn cael ei ragwelir yn is.

## ATODIAD 2

## BWRDD DIOGELU OEDOLION RHANBARTHOL A THREFNIADAU LLEOL

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Partneriaeth a Chraffu am y trefniadau presennol Bwrdd Oedolion Diogelu Gogledd Cymru

1.2 I wneud cais am ystyriaeth arian parhaus yn y gyllideb 2016/17.

### 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae Adran 134 o Ddeddf Gwasanaethau a Lles Deddf Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn mynnu bod Byrddau Plant (SCBs) a Diogelu Oedolion Byrddau (SABS) Diogelu yn cael ei sefydlu. Bydd hyn yn rhoi'r diogelu oedolion ar sail statudol tebyg i'r un ar gyfer diogelu plant.

2.2 Bydd y Rheoliadau yn dilyn y ddeddf, a bydd yn nodi ardaloedd hynny yng Nghymru y mae i fod Diogelu Byrddau ("ardaloedd Bwrdd Diogelu"). Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gyson y bydd diogelu ardaloedd byrddau yn dilyn ôl troed gwasanaethau cyhoeddus a osodwyd gan y Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Heddlu: chwe Sir sy'n ffurfio Gogledd Cymru.

2.3 Mae gwaith wedi bod ar y gweill i ddatblygu trefniadau rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion Fyrddau cyn y ddeddfwriaeth, ac adroddiad ar y strwythur arfaethedig ar gyfer Byrddau Diogelu Oedolion Dosbarthwyd i'r asiantaethau partner perthnasol yn 2013. Mae'r adroddiad yn cynnig trefniant dwy haen debyg i'r un ar waith i fyrddau y plant ar y pryd.

2.4 Roedd y cyn Fwrdd Amddiffyn Oedolion gynhaliwyd ar y cyd o fewn Ynys Môn a Gwynedd bellach wedi cael ei ddisodli gan y Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Cefnogi'r bwrdd, mae Grŵp Cyflenwi is-ranbarthol Oedolion cyd Diogelu yn Ynys Môn a Gwynedd, strwythur sydd wedi cael ei ailadrodd yn Sir Ddinbych a Chonwy a Sir y Fflint a Wrecsam

2.5 Yn ôl Deddf Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Bil (Cymru) 2014, mae'r amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion yw:

(A) i amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd ag anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw awdurdod lleol yn bodloni unrhyw un o'r anghenion hynny): a
(C) yn cael eu profi, neu sydd mewn perygl o gael, eu cam-drin neu esgeulustod,
(D) i atal oedolion hynny o fewn ei ardal a grybwyllir ym mharagraff (a) (i) rhag bod yn mewn perygl o gael eu cam-drin neu esgeulustod.


2.6 Rôl y Oedolion Gogledd Cymru Bwrdd Diogelu yw:

• Ychwanegwch gwerth a gwella canlyniadau i oedolion agored i niwed sydd angen eu diogelu ac amddiffyn;
• Datblygu a darparu cyfeiriad strategol rhanbarthol;
• grwpiau rhanbarthol Uniongyrchol a monitro ar gyfer Hyfforddiant a Datblygiad y Gweithlu, Polisïau a Gweithdrefnau, Cyfathrebu ac Ymgynghori ac Ymarfer i Oedolion Adolygiadau;
• Datblygu a monitro fframwaith rheoli perfformiad;
• Darparu her a chymorth i asiantaethau rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol;
• Cytuno a rheoli'r gyllideb;
• Darparu rhyngwyneb â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol.

2.7 Rôl y Grŵp Cyflenwi isranbarthol Diogelu Oedolion yw:

• Gweithredu strategaeth ranbarthol a'r cynllun busnes
• Cydlynu a monitro gweithgarwch is-ranbarthol aml-asiantaeth;
• Archwilio data perfformiad lleol, ee: Canlyniadau, cyfeiriadau, POVAs, pryderon cynyddol, amddiffyn oedolion a gorchmynion cefnogi;
• Mynychu cyfarfodydd strategaeth;
• nifer sy'n derbyn Hyfforddiant a effaith;
• Cynnal archwiliadau a darparu sicrwydd ansawdd;
• Ystyried achosion o ddiddordeb / achosion blocio / fu bron arbennig;
• Darparu dehongliad lleol o brotocolau rhanbarthol;
• Arwain ar faterion ar gais y bwrdd rhanbarthol.

2.8 Diagram 1 Strwythur -Current ar gyfer Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru




## 3. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

3.1 Roedd y Bwrdd Diogelu Oedolion yn fwrdd statudol a bydd angen ei ariannu gan gyfraniadau oddi wrth ei bartneriaid. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am y cyllid y Bwrdd i gael eu cynnwys yn y trafodaethau ar y gyllideb 2016/17.

## 4. RISG

4.1 Y risg mwyaf ar gyfer y Bwrdd Diogelu a'r Awdurdod Lleol yw'r perygl o ddigwyddiad difrifol sydd yn canfod bod y Bwrdd Diogelu neu un neu fwy o'i asiantaethau partner wedi methu yn eu dyletswydd i ddiogelu. Tra ym maes gofal cymdeithasol nad oes y fath beth â dim risg o gwbl, y strwythur newydd yn anelu at sicrhau bod asiantaethau partner yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

## 5. CYMHELLION A GOBLYGIADAU

5.1 Cysylltiadau â'r Cynllun Corfforaethol a Chofrestr Risg

Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion Byrddau byrddau statudol sy'n cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau'r cyngor ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

5.2 Bydd unrhyw cydraddoldebau, goblygiadau cynaliadwyedd a bioamrywiaeth

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn anelu i sicrhau nad yw plant ac oedolion sy'n agored i niwed o bob cefndir yn destun esgeulustod neu gamdriniaeth.

5.3 Effaith / Effaith ar bolisïau a gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli

Rhanbartholi wedi arwain at fwy o deithio ar gyfer rhai Aelodau Bwrdd Diogelu, ond bydd defnydd llawn yn cael ei wneud cyfathrebu electronig lle bo modd. Dylai'r gostyngiad net yn nifer y cyfarfodydd ar draws Gogledd Cymru yn arwain at lai teithio mewn car ac ôl-troed carbon is.

## 6. CYHOEDDI

6.1 n / a

## 7. RHESWM (S) DROS YR ARGYMHELLIAD (S)

7.1 Er mwyn cwrdd â disgwyliadau statudol o ofynion Llywodraeth Cymru i gynnal bwrdd diogelu.

Awdur

Olwena Davey
Cydlynydd Ammddiffyn Oedolion Bregus
Cyngor Sir Ynys Môn
Medi 2015

| CYNGOR SIR YNYS MôN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **7 Medi 2015** |
| **PWNC :** | **Adroddiad Blynyddol - 'Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi wrthynt'** |
| **AELODAU PORTFFOLIO( AU):** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Sophie Shanahan / Gareth Llwyd**<br>**01248 752717 / 01248 752708**<br>**slsss@anglesey.gov.uk / gllss@anglesey.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

A1 – Nodi natur y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2013/14 ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

A2 – Nodi perfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wrth weithredu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ac yn delio â chwynion.

A3 - Nodi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygu'r trefniadau i ddelio'n effeithiol gyda'r sylwadau a chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

## 2.0 RHESWM

2.1 Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn Gweithredu Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion statudol yng Nghymru. Hyd Awst 2014, roedd hyn yn unol â'r rheoliadau a'r cyfarwyddyd 'Gwrando a Dysgu' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 (o 01/08/2014, ac y mae'r rhain wedi eu disodli gan reoliadau a chyfarwyddyd newydd gan Lywodraeth Cymru, 'Gwneud Pethau'n Well'). Mae ymrwymiad i lunio Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i Bwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol i bwrpasau sgriwtini ac er mwyn monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

2.2 Ystyrir ei bod yn hanfodol bod cofnod yn cael ei gadw o sylwadau a chwynion er mwyn i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol allu dysgu gwersi oddi wrthynt, fel rhan o wella'r ddarpariaeth o wasanaeth. Ystyrir ei bod yn arfer dda i rannu'r adroddiad cwynion blynyddol ag aelodau'r Cyngor er mwyn sicrhau tryloywder.

| | |
|---|---|
| Awdur: | Sophie Shanahan |
| Teitl Swydd: | Swyddog Cwynion a Datblygu Gofal Cwsmer, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dyddiad: | Mai 2015 |

ATODIAD 1- Adroddiad Blynyddol: ‘Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi wrthynt’

ATODIAD 2- Cynllun Gweithredu 2015/16

ATODIAD 1

# YR ADRAN GYMUNED

## ‘Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi wrthynt’

## TREFN GWYNO A SYLWADAU’R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## ADRODDIAD BLYNYDDOL – 2014/15

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hon yn cyfeirio at y modd y gweithredwyd ar Drefn Gwyno a Sylwadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2014 hyd ddiwedd Mawrth 2015.

1.2 Y Swyddog Datblygu Cwynion a Gofal Cwsmer yn yr Adran Gymuned oedd yn gyfrifol am y Drefn Gwyno a Sylwadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r Swyddog Cwynion yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cymuned ac yn cael ei reoli a'i oruchwylio'n ddyddiol gan y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu a Sicrwydd Ansawdd.

1.3 Mae'r Swyddog Cwynion yn gyfrifol am:

- Rheoli'r drefn ar gyfer cofnodi cwynion a sylwadau cadarnhaol a negyddol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr;
- Cadw golwg ar yr ymateb i gwynion o fewn amserlen benodol yn y Canllawiau 'Gwrando a Dysgu' ar gyfer ymdrin â chwynion dan Gam 1;
- Cyd-gysylltu ymchwiliadau gan swyddogion ymchwilio annibynnol i gwynion ffurfiol dan Gam 2 y drefn;
- Sicrhau yr anfonir ymateb ffurfiol, ysgrifenedig a chopi o'r adroddiad ymchwilio annibynnol at yr achwynydd o fewn 25 diwrnod gwaith dan Gam 2 y Canllawiau, gan roi gwybod iddo os rhagwelir y bydd oedi yn yr amserlen;
- Cyd-gysylltu ymatebion yr Adran ag ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion ynghylch materion y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Sicrhau y dysgir gwersi o'r broses ymchwilio i gwynion er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a roddir, safonau ymarfer a phrotocolau a pholisïau adrannol;
- Cadw llygad ar y Drefn Gwyno a Sylwadau o ran gwasanaethau i blant a'u teuluoedd a gwasanaethau i oedolion a'i gwerthuso a'i datblygu;
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael er mwyn hwyluso mynediad i ddefnyddwyr y Gwasanaeth a'u cynrychiolwyr at y Drefn Gwyno a Sylwadau yn unol â'r rheoliadau a'r arweiniad;
- Rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i annog staff ar bob lefel yn yr Adran i gael dealltwriaeth well o swyddogaeth y Drefn Gwyno a Sylwadau.

1.4 Prif amcan y trefniadau hyn yw:

- Cofnodi unrhyw sylwadau, boed yn rhai negyddol neu gadarnhaol am y gwasanaethau a roddir mewn ymateb i anghenion defnyddwyr ein gwasanaeth;
- Ceisio ymdrin â sylwadau a chwynion defnyddwyr gwasanaeth a phobl gymwys eraill cyn agosed â phosib at bwynt darparu'r gwasanaethau er mwyn, lle bo modd, arbed y sefyllfa rhag mynd yn ymchwiliad swyddogol llawn dan gamau ffurfiol yn y Canllawiau;
- Rhoi cyfle i ddefnyddwyr y gwasanaeth a phobl gymwys eraill gyflwyno cwynion ffurfiol am wasanaethau a ddarperir gan yr Adran a chael ymateb ffurfiol oddi wrth y Cyfarwyddwr o fewn yr amserlenni a nodir.

## 2. Sylwadau – Cadarnhaol a negyddol

### 2.1 Sylwadau Cadarnhaol

2.1.1 Cofnodwyd cyfanswm o 110 o sylwadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn (33 ar gyfer y Gwasanaethau Plant, 77 ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion), sy'n uwch na chyfanswm y llynedd oedd yn 34 (12 ar gyfer y Gwasanaethau Plant a 22 ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion yn 2013/14). Mae'n bosib bod rhan o'r cynnydd hwn i'w briodoli i ymwybyddiaeth gynyddol ymysg y staff y dylent gofnodi sylwadau cadarnhaol a'u hanfon ymlaen at y Swyddog Cwynion. O'r 33 o sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant yn 2014/15, roedd 22 gan gydweithwyr ac roedd 11 gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, eu cynrychiolwyr neu aelodau eu teuluoedd neu gan ofalwyr maeth. Roedd y cyfan o'r sylwadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Oedolion gan ddefnyddwyr y gwasanaethau neu aelodau eu teuluoedd. Gellir categoreiddio'r 110 o sylwadau cadarnhaol o fel a ganlyn:

**<u>Tabl 1</u>**

| **Sylwadau Cadarnhaol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal | 2 | Gofal Preswyl | 54 |
| Tîm Gweinyddol | 1 | Gofal Cartref | 17 |
| Tîm Ymyriad Teuluol | 13 | Tîm Oedolion y Gogledd | 1 |
| Tîm Dyletswydd | 6 | Tîm Anableddau Dysgu | 1 |
| Tîm Lleoli Plant | 9 | Tîm Gweinyddol | 1 |
| Rheolwyr | 1 | | |
| Arall | 1 | | |
| **Cyfanswm** | **33** | **Cyfanswm** | **77** |

2.1.2 Isod ceir enghreifftiau o sylwadau cadarnhaol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth:

*"Rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ardderchog a'ch dealltwriaeth"* – **Tîm Lleoli Plant**

*"[Mae'r gweithiwr cymdeithasol] wedi bod yn wych ers iddo gychwyn ar yr achos"* - **Tîm Ymyriad Teuluol**

“*Rydych wedi rhagori y tro hwn! Roeddwn wrth fy modd hefo’r cyfan, digonedd o wybodaeth a rhyw gyffyrddiadau bach ysgafn (wrth fy modd hefo’r gornel greadigol) ... mor ddefnyddiol” –* **Tîm Lleoli Plant**

*“Oherwydd y ffordd y gwnaethoch chi fel Cadeirydd drin y person ifanc a’i dderbyn a’i gynnwys, cyfranogodd at y cyfarfod”* **– Tîm Dyletswydd Plant**

*“Darn ardderchog o waith cymdeithasol gyda llinellau cyfathrebu clir yn cael eu defnyddio’n briodol gyda’r holl asiantaethau perthnasol er budd gorau’r plentyn” -* **Tîm PGA**

*“Hoffwn ddweud pa mor ddiolchgar yr ydwyf i’r ofalwraig am weithredu ac am feddwl mor sydyn a hoffwn ei chanmol ar y modd y cyflawnodd hi ei dyletswyddau” –* **Gofal Môn**

*“Diolch o galon am y gofal a’r sylw ardderchog a gefais ers cael fy rhyddhau o’r ysbyty” –* **Gofal Môn**

*“Diolch am y cyfeillgarwch a’r gefnogaeth a gawsom gennych fel teulu” –* **Brwynog**

*“Hoffwn ddiolch i chi am fod mor garedig tuag ataf yn ystod fy arhosiad. Roedd y bwyd yn fendigedig a chefais hwyl gyda’r staff” –* **Garreglwyd**

*“Rhoddodd y weithwraig gymdeithasol wybodaeth i ni am y cymorth a oedd ar gael, sicrhaodd gymorth brys gan y gwasanaeth ail-alluogi a sicrhaodd nad oedd fy mherthynas yn gorfod aros yn ddiangen yn yr ysbyty... ni fedraf ei chanmol ddigon am ei charedigrwydd, proffesiynoldeb a’i gallu i symud pethau’n eu blaenau” –* **Tîm Oedolion (Gogledd)**

## 2.2 Sylwadau Negyddol

2.2.1 Derbyniodd y Swyddog Cwynion 30 o sylwadau negyddol / pryderon yn ystod y flwyddyn: 16 ar gyfer y Gwasanaethau Plant a 14 ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion. Mae hyn yn gynnydd eto o gymharu â saith y llynedd. Cafodd y 13 o sylwadau negyddol eu categoreiddio fel a ganlyn: 5 ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac 8 ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion yn 2013/14). Mae’n debygol eto bod o leiaf rhan o’r cynnydd hwn i’w briodoli i ymwybyddiaeth gynyddol ymysg y staff y dylent anfon cofnod o bryderon / sylwadau negyddol a dderbyniwyd ymlaen at y Swyddog Cwynion. Ffactor arall sy’n berthnasol i’r cynnydd a gofnodwyd ar y lefel hon yw’r ffaith y cofnodwyd llai o gofnodion dan Gam 1 eleni. Awgryma hyn fod cyfran uwch o’r pryderon a dderbyniwyd wedi cael eu datrys yn gyflym gan olygu nad oedd angen eu hystyried dan Gam 1; os gellir datrys cwyn wrth fodd yr achwynydd o fewn 24 awr, yna caiff ei chofnodi fel pryder yn hytrach na chwyn Cam 1. Ymdriniwyd â rhai o’r cwynion drwy brosesau eraill fel oedd yn briodol, e.e. Diogelu Oedolion Bregus (POVA) / Cydymffurfio â Chontractau. Pan dderbynnir cwynion gan aelodau o’r cyhoedd nad ydynt yn gymwys i gwyno dan Weithdrefn Gwynion y Gwasanaethau

Cymdeithasol, ymchwilir iddynt drwy broses briodol arall. Gellir categoreiddio'r 30 o gwynion fel a ganlyn:

**Tabl 2**

| SYLWADAU NEGYDDOL | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant | | Gwasanaethau Oedolion | |
| Tîm Dyletswydd | 3 | Anabledd Corfforol | 1 |
| Gwasanaethau Arbenigol Plant | 1 | Anableddau Dysgu | 2 |
| Tîm Ymyriad Teuluol | 3 | Gofal Preswyl | 1 |
| Tîm Plant mewn Gofal | 5 | Tîm Oedolion - Y Gogledd | 3 |
| Tîm Lleoli Plant | 1 | Gofal Cartref | 3 |
| Tîm Gwaith Cymorth | 1 | Rheoli | 2 |
| Rheoli | 1 | Tîm Dyletswydd | 1 |
| Arall | 1 | Tîm Gweinyddol | 1 |
| **Cyfanswm** | **16** | **Cyfanswm** | **14** |

## 3. Cwynion Cam 1 – Penderfyniad Lleol

3.1 Yn Nhabl 3 isod, crynhoir nifer y cwynion a ddaeth i law dros y chwe blynedd diwethaf am y Gwasanaethau Oedolion a Phlant dan Gam 1, Cam 2 a Cham 3 y Drefn Gwyno a Sylwadau. I roi'r ffigurau hyn mewn persbectif, mae Tabl 4 yn dangos ystadegau ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Gwasanaethau Plant, ac mae Tabl 5 yn dangos ystadegau ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Gwasanaethau Oedolion yn 2014-15.

**Tabl 1a**

| Blwyddyn | Oedolion Cam 1 | Plant Cam 1 | Cyfanswm Cam 1 | Oedolion Cam 2 | Plant Cam 2 | Cyfanswm Cam 2 | Oedolion Cam 3 | Plant Cam 3 | Cyfanswm Cam 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008/09 | 45 | 13 | **58** | 2 | 0 | **2** | 1 | 0 | **1** |
| 2009/10 | 29 | 23 | **52** | 4 | 1 | **5** | 1 | 0 | **1** |
| 2010/11 | 37 | 20 | **57** | 1 | 2 | **3** | 0 | 0 | **0** |
| 2011/12 | 25 | 40 | **65** | 3 | 4 | **7** | 0 | 0 | **0** |
| 2012/13 | 32 | 24 | **56** | 2 | 4 | **6** | 2 | 3 | **5** |
| 2013/14 | 24 | 26 | **50** | 5 | 6 | **11** | 0 | 0 | **0** |
| 2014/15 | 17 | 20 | **37** | 2 | 5 | **7** | 1 | 0 | **1** |

**Tabl 4**

| Gwasanaethau Plant 2014-15 | |
|---|---|
| Nifer y Plant mewn Angen ar 31 Mawrth | **234** |

| | |
|---|---|
| Nifer y Plant mewn Gofal ar 31 Mawrth | **91** |
| Plant a roddwyd ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn | **77** |
| Nifer y cysylltiadau yn ystod y flwyddyn | **3681** |
| O’r cysylltiadau uchod, y nifer a ddaeth yn Gyfeiriadau | **1627** |
| Cyfanswm nifer y Cysylltiadau / Cyfeiriadau gan yr Heddlu | **2120** |
| Asesiadau Cychwynnol a Gwblhawyd | **535** |
| Asesiadau Craidd a Gwblhawyd | **110** |


**Tabl 5**


| **Gwasanaethau Oedolion 2014-15** | |
|---|---|
| Nifer yr oedolion yn cael gwasanaeth ar 31 Mawrth | **1,708** |
| Cynlluniau gofal newydd wedi’u cwblhau (Gofal Preswyl a Chartref) | **969** |
| Nifer yr asesiadau gofalwyr newydd a gynhaliwyd | **521** |
| Pobl yn cael Taliad Uniongyrchol | **56** |
| Nifer yr oriau o ofal cartref a gomisiynwyd | **247,073** |
| Pobl yn cael gofal cartref preswyl/nyrsio | **659** |
| Adolygiadau a gynhaliwyd | **971** |
| Pobl yn cael technoleg gynorthwyol | **412** |
| Pobl yn cael offer i’w cynorthwyo gyda gweithgareddau bywyd beunyddiol | **478** |
| Pobl yn cael offer i’w cynorthwyo gydag addasiadau mawr neu fach i’w tai | **225** |
| Pobl yn cael gwasanaeth ail-alluogi | **500** |

3.2.1 Mae Tabl 1a yn dangos bod nifer y cwynion a gofnodwyd dan Gam 1 y Drefn wedi gostwng o gymharu â’r flwyddyn flaenorol a bod nifer y cwynion a uwch-gyfeiriwyd i Gam 2 y Drefn hefyd wedi gostwng, yn arbennig felly yn achos y Gwasanaethau Oedolion. Rydym yn parhau i roi pwyslais ar ddatrys cwynion cyn gynted ag sy’n bosibl er mwyn osgoi eu huwch-gyfeirio. Yn ychwanegol at y pryderon hyn, ymatebwyd i 7 o gwynion mewn perthynas â’r Gwasanaethau Plant a 3 mewn perthynas â’r Gwasanaethau Oedolion dan Weithdrefn Gwynion Gorfforaethol y Cyngor yn 2014-15 oherwydd nad oedd y cwynion hynny’n gymwys i gael eu hystyried dan weithdrefn y Gwasanaethau Cymdeithasol (e.e. oherwydd mai cwyn gan asiantaeth ydoedd yn hytrach na defnyddiwr gwasanaeth); sef cynnydd o gymharu â’r llynedd. Mae’r gostyngiad mewn cwynion Cam 2 yn awgrymu fod ymdrechion rhagweithiol i ddatrys pryderon a’r cyfarfodydd/trafodaethau cwynion Cam 1 a gynigir dan y weithdrefn gwynion newydd, yn helpu i ddatrys cwynion yn gynt. Weithiau, cynigir cyfarfodd ychwanegol i achwynwyr sy’n anhapus gyda’r ymatebion a dderbynnir o dan Cam 1 er mwyn ceisio datrys materion heb eu huwch-gyfeirio i Gam 2.


3.2.2 Mae’r siart olwyn isod yn dangos perfformiad yr Adran o ran ymateb i gwynion Cam 1 o fewn amserlenni statudol. O Awst 2014, yn unol â’r weithdrefn newydd, cynigiwyd cyfarfodydd / trafodaethau dros y ffôn i achwynwyr o fewn 10 niwrnod gwaith o gydnabod y gŵyn, gyda llythyr ymateb yn dilyn i gadarnhau telerau datrys eu cwynion o fewn 5 niwrnod gwaith i’r drafodaeth.


## GWASANAETHAU PLANT



## GWASANAETHAU OEDOLION




3.2.3 Dengys y ffigyrau welliant o ran canran y cwynion yr ymatebwyd iddynt yn ysgrifenedig o fewn yr amserlen o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (54% o ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen ar gyfer y Gwasanaethau Plant a 58% ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion yn 2013/14).

3.2.4 Yn Nhabl 6, ceir manylion am y gwasanaethau lle derbyniwyd cwynion Cam 1 dan y Weithdrefn Cwynion a Sylwadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.

**Tabl 6**

| CWYNION CAM 1 | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Tîm Dyletswydd | 3 | Anableddau Corfforol | 2 |
| Tîm Gwaith Cymorth | 2 | Anableddau Dysgu | 2 |
| Tîm Ymyriad Teuluol | 7 | Tîm Oedolion – Y De | 2 |
| Tîm Plant mewn Gofal | 4 | Tîm Oedolion (Y Gogledd) | 5 |
| Tîm Lleoli Plant | 4 | Gwasanaethau Cymorth yn y Gymuned | 3 |
| Gwasanaethau Arbenigol Plant | 0 | Cyllid Cleientiaid | 3 |
| Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd | 0 | Tîm Dyletsydd / Gweinyddiaeth | 0 |
| Gweinyddiaeth | 0 | | |
| **Cyfanswm** | **20** | **Cyfanswm** | **17** |

3.4 Roedd dadansoddiad o natur y cwynion yn y Gwasanaethau Plant yn dangos bod y cwynion yn ymwneud, yn bennaf, â:

- Cyfathrebu annigonol neu ansensitif;
- Gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n anghywir;
- Anfodlonrwydd gyda gweithredoedd neu agwedd staff Gwaith Cymdeithasol, gan gynnwys rhagfarn ganfyddedig;
- Pryderon ynghylch ymddygiad neu weithredoedd gweithwyr cymorth;
- Ymchwiliadau neu ymyriadau annigonol;
- Canslo apwyntiadau heb roi rhybudd ymlaen llaw;
- Anfodlonrwydd gyda threfniadau cyswllt;
- Dim digon o gefnogaeth yn ystod y broses fabwysiadu;
- Anfodlonrwydd gyda threfn y prosesau asesu ar gyfer maethu;
- Materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth gyda gorchmynion llys.

3.5 Yn y Gwasanaethau Oedolion, roedd y cwynion yn ymwneud, yn bennaf, â:

- Anfodlonrwydd oherwydd bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu rhoi mewn llety a oedd yn cael ei ystyried fel llety amhriodol;
- Dim digon o ymgynghori gyda theuluoedd mewn perthynas â llety;

- Tynnu'n ôl y gwasanaeth ail-alluogi, neu gynnig ail-alluogi yn hytrach na'r pecyn gofal arferol;
- Materion cyfathrebu mewn perthynas ag asesiadau Diogelu rhag Colli Rhyddid neu DOLS:
- Anfodlonrwydd gydag ymweliadau gofal cartref, gan gynnwys yr amseroedd a gynigiwyd ar gyfer ymweliadau, cydymffurfiaeth â chynlluniau gofal a methu ymweliadau;
- Dim digon o gyfathrebu gydag aelodau teulu'r defnyddwyr gwasanaeth.

## 4. Trosolwg o'r Cwynion Ffurfiol (Cam 2)

4.1.1 Rhaid i Swyddog Ymchwilio Annibynnol ymchwilio i gwynion dan Gam 2 y Weithdrefn. Er y gwneir pob ymdrech i ddatrys cwynion yng Ngham 1, ceir adegau lle nad oes modd gwneud hyn, yn enwedig felly gyda'r achosion mwyaf cymhleth neu pan fo'r achwynwyr yn mynnu mynd yn ei flaen i Gam 2. Mae gan achwynwyr yr hawl i osgoi Cam 1 a gofyn am ystyriaeth ffurfiol dan Gam 2 os ydynt yn dymuno.

4.1.2 Yn ystod y flwyddyn, cofrestrwyd 7 o gwynion dan Gam 2, gostyngiad o gymharu â'r 11 yn ystod 2013/14. Ymatebwyd eisoes o dan Cam 1 o'r Drefn i 5 o'r cwynion a ymchwiliwyd dan Gam 2 yn 2014/15. Aeth y 2 gŵyn arall ar eu hunion i Ran 2 ar gais yr achwynydd.

4.1.3 Dim ond 2 o'r 7 o ymchwiliadau dan Gam 2 yn ystod y flwyddyn gafodd eu cwblhau ymhen yr amserlen o 25 diwrnod gwaith; fodd bynnag, ni chafwyd oedi sylweddol gyda'r un ymateb a'r cyfnod hwyaf a gymerwyd i gwblhau'r broses oedd 35 diwrnod gwaith. Rhydd y rheoliadau newydd fwy o bwyslais ar gwblhau'r broses Cam 2 o fewn yr amserlen ac o'r herwydd, gofynnir i swyddogion ymchwilio yn awr gyflwyno eu hadroddiadau i'r Adran o fewn 20 diwrnod gwaith.

4.1.4 Caiff Cynlluniau Gweithredu eu creu yn dilyn ymchwiliadau dan Gam 2. Mae ymchwiliadau dan Gam 2 i gwynion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Plant bellach yn cynnwys trafodaeth gyda'r Person Annibynnol ynghylch cynnwys y Cynlluniau Gweithredu. Caiff y rhain eu cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth ac yna eu monitro bob mis hyd oni fydd y camau gweithredu i gyd wedi eu cwblhau.

### 4.2 Gwasanaethau Plant

4.2.1 Yn ystod 2014/15, cofrestrwyd pump o gwynion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant dan Gam 2 y Weithdrefn. Trefnwyd ymchwiliadau gan Swyddogion Ymchwilio Annibynnol gyda Pherson Annibynnol yn goruchwylio tegwch a chydraddoldeb yr ymchwiliad. Yn Nhabl 7, edrychir ar y 5 cwyn yn fanylach:

**Tabl 7**

| RHIF / CATEGORI | NATUR Y GŴYN | CANLYNIAD |
|---|---|---|
| **CAM 2**<br><br>**CS016 Plant** | Cwyn ynghylch:<br><br>• Anghenion o ran iaith dramor wedi dylanwadu ar y dull a ddefnyddiwyd gan y gweithiwr cymdeithasol dynodedig, nid oedd yn ystyriol nac yn garedig.<br>• Dim copi neu eglurhad clir o'r gweithdrefnau a'r Statudau sy'n rhan o'r broses o gynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant<br>• Nid oedd y Cofnodiadau o'r cyfarfodydd Amddiffyn Plant ar gael yn yr iaith y gofynnwyd amdani<br>• Roedd penderfyniadau a dyfarniadau'n seiliedig ar wybodaeth ffeithiol anghywir a rannwyd rhwng yr asiantaethau perthnasol<br>• Ni chynhaliwyd y cyfarfod yn ôl y trefniant a hynny heb ymddiheuriad<br>• Cyfathrebu'n ansensitif gyda phlentyn<br>• Honnodd y gweithiwr cymdeithasol nad oedd yn ymwybodol o'r manylion cyswllt a oedd ar y ffeil<br>• Gweithiwr cymdeithasol dynodedig ???? | Cytunodd y Swyddog Ymchwilio Annibynnol â 7 o bwyntiau'r gŵyn, ond gwrthododd 1 pwynt<br><br>GWERSI A DDYSGWYD<br><br>• Cyfieithiad llawn o gofnodion i gael ei ddarparu ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg/Saesneg os ceir cais<br>• Gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch Cynadleddau Achos i gael ei darparu ar gyfer rhieni cyn y Gynhadledd Achos Gychwynnol<br>• Defnyddwyr Gwasanaeth i gael gwybod ymlaen llaw os bydd angen canslo cyfarfodydd<br>• Gweithwyr cymdeithasol i sicrhau bod enwau'r defnyddwyr gwasanaeth ar ffeiliau achos yn gywir |
| **CAM 2**<br><br>**CS017 Plant** | Cwyn ynghylch:<br><br>• Datganiadau anwir wedi cael eu hysgrifennu fel petaent yn ffaith a'r asesiadau'n seiliedig ar y datganiadau anwir hyn<br>• Roedd gan y gweithiwr cymdeithasol ragfarn yn erbyn aelod o'r teulu | Cytunodd yr Ymchwilydd Annibynnol â dau o bwyntiau'r gŵyn, ni chytunodd â dau ohonynt a phenderfynodd nad oedd yn briodol gwneud penderfyniad ynghylch tri o bwyntiau'r gŵyn.<br><br>**GWERSI A DDYSGWYD** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cyfarfodydd wedi cael eu cynnal heb yn wybod i'r achwynydd<br>• Ymchwiliad yn seiliedig ar achlust wedi ei ddefnyddio yn erbyn yr achwynydd<br>• Gweithiwr Cymdeithasol wedi awgrymu cwrs 'Caring Dads' heb sail<br>• Gwybodaeth anghywir ar ffeiliau'r Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Gwrthod newid y Gweithiwr Cymdeithasol a oedd yn gyfrifol am ysgrifennu'r Adroddiad i'r Llys | • Staff i ofalu eu bod yn defnyddio iaith wrthrychol wrth gofnodi<br>• Staff i gofnodi'n glir ffynhonnell yr holl wybodaeth sydd ar ffeil<br>• Os gwelir bod honiad difrifol di-sail wedi ei gofnodi, dylid cysylltu gyda'r heddlu er mwyn cadarnhau a yw'r wybodaeth yn gywir a chofnodi'r canlyniad. |
| **CAM 2**<br><br>**CS018 Plant** | Cwyn ynghylch:<br><br>• Ychydig iawn o Waith Stori Bywyd oedd gan y plant a dim gwaith paratoi ar gyfer Mabwysiadu<br>• Diffyg gwybodaeth feddygol a gofal iechyd wedi ei darparu ar gyfer y rhieni mabwysiedig<br>• Pryderon ynghylch cefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol wedi eu hanwybyddu gan staff Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Cyfathrebu annigonol gan staff Gwasanaethau Cymdeithasol drwy gydol y broses a dim yn ffonio'n ôl<br>• Cefnogaeth annigonol mewn perthynas ag ymgeisio am Lwfans Mabwysiadu<br>• Cyfathrebu annigonol rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adrannau eraill, yn arbennig Addysg | Cytunodd yr Ymchwilydd Annibynnol gyda 4 o bwyntiau'r gŵyn ond ni chytunodd gyda 2 ohonynt<br><br>**GWERSI A DDYSGWYD**<br><br>• Staff i sicrhau fod cyfenwau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu newid ar RAISE pan mae angen, e.e. pan gânt eu lleoli ar gyfer Mabwysiadu<br>• Angen egluro'r broses ariannol mewn perthynas â gwneud taliadau Lwfans Mabwysiadu er mwyn osgoi unrhyw oedi<br>• Angen gweithdrefn ar gyfer uwch-gyfeirio gwahaniaethau rhwng staff CSYM a staff NWAS<br>• Nodi staff sydd â diddordeb penodol mewn mabwysiadu a gwella eu sgiliau<br>• Os bydd plentyn yn cael ei fabwysiadu a'i leoli mewn gwlad arall, yna rhaid ymgynghori gyda'r Awdurdod Lleol arall er mwyn sicrhau eglurder ynghylch cyfrifoldeb am |

| | | |
|---|---|---|
| | | anghenion y plentyn<br>• Gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth feddygol, i gael ei darparu ar gyfer rhieni mabwysiedig yn brydlon ac ni ddylai pryderon o ran Diogelu Data achosi oedi hir |
| **CAM 2**<br><br>**CS019 Plant** | Cwyn ynghylch:<br><br>• Gweithiwr cymdeithasol wedi anfon llythyr a oedd wedi ei eirio'n amhriodol ac yn ansensitif heb ymgynghori yn y modd priodol<br>• Dim digon o gefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i herio'r Adran Dai<br>• Y gweithiwr cymdeithasol wedi ymateb yn gyflym i atal y rhieni rhag ymweld â'r plentyn<br>• Gweithiwr cymdeithasol ddim wedi rhoi gwybod i aelod y teulu am y broses yr oedd yr achwynydd yn mynd drwyddi<br>• Y gweithiwr cymdeithasol wedi methu goruchwylio a chefnogi gorchymym cyswllt<br>• Awgrymodd y gweithiwr cymdeithasol y dylid cael diweddariad bob mis gan y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau ond ni fu modd cael y diweddariadau hynny oherwydd materion cyfrinachedd | Cytunodd yr Ymchwilydd Annibynnol â 4 o bwyntiau'r gŵyn a chytunodd yn rhannol â 2 o'r pwyntiau.<br><br>**GWERSI A DDYSGWYD**<br><br>• Staff i fod yn glir o ran eu cyfrifoldebau dan Orchmynion Cymorth i Deuluoedd<br>• Staff gwaith cymdeithasol i roi gwybod i'w rheolwyr llinell os yw eu baich gwaith yn eu rhwystro rhag cydymffurfio gyda Gorchmynion Llys<br>• Rheolwyr timau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol sy'n cael trafferth ymdopi gyda'u llwyth achosion a chofnodi'n glir yn y nodiadau goruchwyliaeth y camau gweithredu a gymerwyd i reoli hyn<br>• Angen bod yn sensitif wrth eirio llythyrau i aelodau'r teulu yn arbennig lle mae pethau eisoes yn anodd<br>• Nodiadau achosion i fod yn rhai 'ar y pryd' ac yn glir<br>• Os yw'n amhosibl cydymffurfio gyda rhannau o'r gorchmynion llys, yna dylid rhoi gwybod i'r llys am hynny |
| **CAM 2**<br><br>**CS020 Plant** | Cwyn gan riant ynghylch:<br><br>• Nid oedd dymuniadau a theimladau'r plant wedi cael eu trafod yn eu | Cytunodd yr Ymchwilydd Annibynnol â 2 o bwyntiau'r gŵyn cytunodd yn rhannol â 3 o bwyntiau'r gŵyn ac nid oedd yn cytuno â 2 o bwyntiau'r gŵyn |

| | | |
|---|---|---|
| | Hadolygiadau Statudol ac nid oedd eu llyfrynnau ar gael<br>• Nid oedd dymuniadau a theimladau'r rhieni wedi cael eu trafod yn yr Adolygiadau Statudol<br>• Nid oedd papurau ymgynghori'r rhieni wedi cael eu darllen cyn yr Adolygiadau Statudol na'u trafod ynddynt<br>• Ni ddylai'r plant fod yn bresennol am y cyfan o'r Adolygiad Statudol<br>• Diffyg cydymffurfiaeth gyda'r gorchymyn llys o ran sicrhau fod y plant yn derbyn therapi<br>• Diffyg cydymffurfiaeth gyda'r gorchymyn llys o ran trosglwyddo cyswllt i aelodau eraill o'r teulu<br>• Diffyg cydymffurfiaeth gyda'r gorchymyn llys o ran sicrhau ychwaneg o gyswllt | **GWERSI A DDYSGWYD**<br>• Egluro cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn modd diamwys i rieni<br>• Sicrhau fod cronoleg mewn ffeiliau achos yn nodi digwyddiadau arwyddocaol, gan gynnwys manylion am leoliadau<br>• Sicrhau fod Adolygiadau Statudol yn cynnwys trafodaeth ynghylch dymuniadau a theimladau rhieni a phlant<br>• Ymchwilio i benderfynu a ddylai gwaith papur a baratowyd ar gyfer Adolygiadau Statudol gael ei rannu gyda'r sawl sy'n mynychu |

### 4.3 Gwasanaethau Oedolion

4.3.1 Yn ystod 2014/15, daeth dwy gwŷn i law dan Gam 2 y Drefn. Yn nhabl 8 isod edrychir yn fanylach ar y pum cwyn:

**Tabl 8**

| RHIF / CATEGORI | NATUR Y GŴYN | CANLYNIAD |
|---|---|---|
| **CAM 2**<br><br>**OP005 Oedolion** | Cwyn ynghylch:<br>• Teulu ddim wedi cael gwybod am y canllawiau ar gyfer nyrsio EMI<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol ddim yn ffonio'n ôl<br>• Gwasanaethau | Cytunodd yr Ymchwilydd annibynnol â dau bwyntiau'r gŵyn ond ni chytunodd â thri o bwyntiau'r gŵyn<br><br>**GWERSI A DDYSGWYD**<br>• Dwyn aelodau perthnasol y teulu i mewn i'r broses asesu EMI |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymdeithasol yn anwybyddu pryderon y teulu<br>• Dywedwyd wrth y teulu nad oedd gobaith i'r defnyddiwr gwasanaeth gael ei symud i gartref lleol<br>• Dim ymddiheuriad yn y llythyr Cam 1 | • Adolygu'r wybodaeth a ddarperir i deuluoedd ynghylch cymhwyster ar gyfer gofal preswyl a nyrsio<br>• Cytuno'n glir wrth gyfathrebu gyda theuluoedd sydd â nifer o frodyr a chwiorydd pwy fydd y pwynt cyswllt gyda'r Adran<br>• Oni fedrir dychwelyd galwadau, dylid rhoi gwybod i'r teuluoedd am unrhyw ddatblygiadau a nodi'r penderfyniad yn glir yn nodiadau'r achos<br>• Dylid delio gyda chwynion fesul pwynt |
| **CAM 2**<br><br>**MH004 Oedolion** | Cwyn ynghylch:<br><br>• Defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei roddi mewn cartref lle gallai fod mewn perygl<br>• Aelodau teulu'r defnyddiwr gwasanaeth ddim yn ymwybodol o'r risgiau<br>• Dim yn gwrando ar sylwadau teulu'r defnyddiwr gwasanaeth<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i roi'r defnyddiwr gwasanaeth mewn perygl | Cytunodd yr Ymchwilydd annibynnol ag un o bwyntiau'r gŵyn ond ni chytunodd a thri o bwyntiau'r gŵyn<br><br>**GWERSI A DDYSGWYD**<br><br>• Adolygiadau i gael eu cynnal bob blwyddyn heb unrhyw oedi<br>• Cyfathrebu gyda theuluoedd yn unol â chynlluniau cyfathrebu y cytunwyd arnynt |

## 5. Panel Adolygu Annibynnol – Cam 3

5.1.1 Dan y Canllawiau 'Gwrando a Dysgu' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2006, cyflwynwyd trefn i ymdrin â cheisiadau am adolygiad annibynnol dan Gam 3 y Drefn. Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Ysgrifennydd Cwynion Annibynnol i sicrhau adolygiad cwbl annibynnol dan Gam 3 y Drefn. Pwrpas y Panelau Annibynnol yw adolygu'r modd y mae awdurdodau wedi ymdrin â'r gŵyn a'r ymateb a roes y Cyfarwyddwr i'r achwynydd.

5.1.2 Dan y Canllawiau newydd 'Gwneud Pethau'n Well' gan Lywodraeth Cymru, a ddaeth i rym ym mis Awst 2014, diddymwyd y Panelau Annibynnol. Yn ystod 2014/15, cynhaliwyd un adolygiad i gŵyn gan yr Ysgrifennydd Cwynion Annibynnol.

## 6. Panel Swyddogion Ymchwilio Annibynnol

6.1 Mae Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol y chwe chyngor ar draws Gogledd Cymru yn cynnal Panel o Gyd-Swyddogion i ymateb i geisiadau am ymchwiliadau Cam 2. Gwneir ymdrechion parhaus i adnabod a recriwtio staff cymwys i wasanaethu fel swyddogion ymchwilio annibynnol i'r chwe sir. Mae Grŵp Swyddogion Cwynion Gogledd Cymru wrthi'n diweddaru'r canllawiau a roddwyd i Swyddogion Ymchwilio Annibynnol a Phersonau Annibynnol.

6.2 Dan ddarpariaethau Deddf Plant 1989, rhaid penodi Personau Annibynnol i oruchwylio'r modd y mae'r adran yn cynnal ymchwiliad i gwynion ffurfiol dan Rannau III a IV y Ddeddf. Penodwyd Personau Annibynnol ar gyfer y cyfan o'r ymchwiliadau i Cam 2 i gwynion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant yn 2014/15.

## 7. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7.1 Penderfynodd yr Ombwdsmon gynnal ymchwiliad i 2 gŵyn o gamweinyddu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2014/15, y ddwy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Plant. Roedd ymchwiliad eisoes wedi ei gynnal i un o'r cwynion hyn dan Gam 2 Gweithdrefn Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac ymchwiliwyd i'r llall dan y Weithdrefn Gwynion Gorfforaethol. Mae'r adran yn disgwyl am ganlyniadau ddau ymchwiliad hyn.

7.2 Yn ychwanegol at hyn, cyflwynwyd 2 gŵyn arall i'r Ombwdsmon yn ystod 2014/15 ond gwrthododd yr Ombwdsmon gynnal ymchwiliad oherwydd roeddynt o'r farn y dilynwyd y gweithdrefnau cywir.

## 8. Gwasanaethau Eiriolaeth

8.1 Yn 2014/15, parhaodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu Gwasanaethau Eiriolaeth proffesiynol annibynnol gyda'r Gwasanaeth

Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Daeth y cytundeb hwn i ben ddiwedd Mawrth 2015 ac o fis Ebrill 2015, bydd gwasanaethau eiriolaeth i blant yn cael eu darparu gan Tros Gynnal. Canolbwyntiodd y gwasanaeth yn bennaf ar:

- Rhoi gwybodaeth yng nghyswllt Gwasanaethau Eiriolaeth a hawliau plant;
- Rhoi Gwasanaeth Eiriolaeth i unigolion a grwpiau o blant a phobl ifanc, yn enwedig Plant Mewn Gofal;
- Rhoi adborth gan blant a phobl ifanc am y gwasanaethau a gafwyd gan yr Adran;
- Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyflwyno eu barn ar ddatblygiadau yn yr Adran;

8.2 Mae gan yr Adran gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a chanddynt anableddau dysgu. Gellir cyfeirbwyntio pobl eraill i sefydliadau trydydd sector megis Y Bont, y Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl neu Age Concern.

## 9. Cwynion yng nghyswllt gwasanaethau a ddarperir ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd

9.1 Ceir Protocol ar y cyd ers 2001 a ffurfiwyd i fod yn fframwaith ar gyfer ymdrin â chwynion am wasanaethau a ddarperir ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn wyneb y canllawiau cwynion newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, gwnaed gwaith gan Grŵp Swyddogion Cwynion Gogledd Cymru i ddiweddaru'r protocol hwn. Gobeithir y bydd y protocol wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo yn ystod chwarter cyntaf 2015/16. Ni chafodd yr un gŵyn a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2014/15 sylw dan y protocol hwn.

## 10. Strategaeth Gwybodaeth

10.1 Mae'r adran yn adolygu'n rheolaidd y gyfres o daflenni gwybodaeth a gyhoeddir ynghylch yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi plant a'u teuluoedd a defnyddwyr y gwasanaethau oedolion a sicrhau bod digon o gyflenwad i gwrdd â'r galw. At hyn, caiff y taflenni hyn eu cylchredeg i nifer o bwyntiau gwybodaeth ar yr Ynys er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y gwasanaethau sydd ar gael. Anfonir taflen wybodaeth i blant ynghylch y Drefn Gwyno a Sylwadau at bob plentyn sy'n derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaethau Plant ar adeg cynnal yr Asesiad Cychwynnol. Cytunwyd y byddir yn anfon taflenni cwynion at oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar adeg derbyn y cyfeiriad cyntaf ac atgoffir oedolion hefyd o'r drefn gwyno ar adeg cynnal Adolygiadau Blynyddol. Anfonir copi o'r daflen gwynion at ddefnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'u teuluoedd pan dderbynnir cwynion ganddynt ynghyd â chydnabyddiaeth ysgrifenedig o'u cwyn a hynny o fewn dau ddiwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn.

10.2 Yn rhai o'r taflenni gwybodaeth a gyhoeddir gan yr adran ceir cyfeiriad at y Drefn Gwyno a Sylwadau a chaiff defnyddwyr y gwasanaeth eu hannog i roi atborth am y gwasanaeth a dderbynnir. Mae gwybodaeth am y drefn Gwyno a Sylwadau hefyd ar gael ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

## 11. Gwariant 2014-15

11.1 Wrth gynnal a gweithredu'r Drefn Gwyno yn y Gwasanaethau Plant a'u Teuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion dan y canllawiau statudol, 'Gwrando a Dysgu', dyma'r prif gostau i'r Adran:

- Costau gwaith sesiynol gan Bersonau Annibynnol a benodwyd gan yr Adran i oruchwylio ymchwiliadau i Gwynion dan Ddeddf Plant 1989;
- Costau penodi Ymchwiliwr Annibynnol i ymgymryd ag ymchwiliadau i gwynion ffurfiol a ddaeth i law'r Adran;
- Costau mynd i gyfarfodydd a/neu am hyfforddiant;
- Costau'n ymwneud â chyhoeddusrwydd a chyhoeddi taflenni gwybodaeth.

11.2 Yn nhabl 9 isod, dangosir y gwariant ar gyfer penodi ymchwilwyr a phersonau annibynnol yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015 (ac eithrio costau ar gyfer ymchwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn na chafodd eu hanfonebu tan 2014-15.

**Tabl 9**

**Gwasanaethau Plant**

| 01 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015 | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Natur y Gwariant** | **£** |
| Gwasanaethau Plant | IIO | 1616.00 |
| Gwasanaethau Plant | IP | 865.00 |
| Gwasanaethau Plant | IIO | 2578.51 |
| Gwasanaethau Plant | IP | 583.28 |
| Gwasanaethau Plant | IIO | 1079.75 |
| Gwasanaethau Plant | IP | 379.50 |
| Gwasanaethau Plant | IIO | 1292.00 |
| Gwasanaethau Plant | IP | 970.00 |
| Gwasanaethau Plant | IIO | 1275.81 |
| Gwasanaethau Plant | IP | 451.84 |
| Gwasanaethau Plant | IP | 366.50 |
| Gwasanaethau Plant | IIO | 1050.25 |
| | **CYFANSWM** | **£12,508.44** |

**Gwasanaethau Oedolion**

| 01 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015 | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Natur y Gwariant** | **£** |
| Gwasanaethau Oedolion | IIO | 1045.80 |
| Gwasanaethau Oedolion | IIO | 1629.25 |
| Gwasanaethau Oedolion | IIO | 1434.75 |
| Gwasanaethau Oedolion | IIO | 1872.00 |
| Gwasanaethau Oedolion | IIO | 575.03 |
| Gwasanaethau Oedolion | IIO | 407.00 |
| | **CYFANSWM** | **£6,963.83** |

## 12. Monitro a gwerthuso Gweithrediad y Drefn Gwyno

12.1 Cyflwynir adroddiadau monitro chwarterol i Dîm Rheoli'r Gwasanaethau Oedolion a Phanel Sicrwydd Ansa2wdd y Gwasanaethau Plant sy'n gwerthuso nifer y cwynion a ddaeth i law yn erbyn pob gwasanaeth dan bob cam o'r drefn a'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion hyn. Rydym hefyd yn monitro pa mor effeithiol yw'r Adran wrth ddelio â chwynion o fewn yr amser gofynnol yn unol â gofynion canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

12.2 Mae'r Adran yn anfon ffurflen fonitro at bob achwynydd unwaith y mae'n derbyn ymateb ysgrifenedig i'w gŵyn dan Gam 1 y Drefn. Fel hyn, mae modd i'r Adran fonitro pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion yn effeithiol ac o fewn yr amser penodol.

12.3 Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu Grŵp Swyddogion Cwynion Gogledd Cymru yn chwarterol a'r hyn yr oedd y trafodaethau'n ei ganolbwyntio arno'n bennaf oedd gweithredu Gweithdrefn Gwyno a Sylwadau newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a diweddaru'r protocolau a'r canllawiau perthnasol.

## 13. **Hyfforddiant**

13.1 Mynychodd rheolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ddiwrnodau hyfforddiant gan Albany Mediation Services, 'Conflict Resolution and Mediation Skills for Managers and Social Workers' ym Hydref 2014 a Mawrth 2015. Mynychodd y Swyddog Cwynion Dynodedig gynhadledd 'How to Turn Public Sector Complaints into Services Improvements'.

13.2 Paratowyd canllawiau ysgrifenedig gan y Swyddog Cwynion Dynodedig ar gyfer rheolwyr ynghylch llythyrau ymateb a chyfarfodydd ar gyfer cwynion Cam 1. Cylchredodd y Swyddog Cwynion Dynodedig brotocolau mewnol a mynychod gyfarfodydd rheoli'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion er mwyn sicrhau fod yr holl reolwyr yn ymwybodol o'r Gweithdrefn Gwyno a Sylwadau newydd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Sophie Shanahan,**
**Swyddog Datblygu Gofal Cwsmer a Swyddog Cwynion Dynodedig**
**Dyddiad: Mis Mai 2015**

**ATODIAD 2**

**Cynllun Gweithredu 2015/16**

| Maes | Gweithredu | Camau gan Bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1. Cryfhau Gweithrediad y Drefn Gwyno a Sylwadau | i) Sicrhau'n barhaus bod holl staff yr Adran – yn yr holl wasanaethau, yn dilyn y Canllawiau ac yn cofnodi sylwadau cadarnhaol a negyddol a chwynion fel bod modd i'r Swyddog Cwynion allu cadw ystadegau cywir | Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth / Rheolwyr Tîm | Parhaus |
| 2. Ymdrin â chwynion yn effeithiol ac amserol dan Gam 1 Cham 2 y Drefn | i) Cynnal ymchwiliad trylwyr i gwynion yng Ngham 1 y weithdrefn i sicrhau ymateb cynhwysfawr mewn ymgais i leddfu anfodlonrwydd ac osgoi uwch-gyfeirio i Gam 2<br><br>ii) Sicrhau ymatebion amserol i gwynion o fewn yr amser penodol o ddeng niwrnod gwaith i gynnal trafodaeth gyda'r achwynydd a 5 niwrnod o'r drafodaeth i anfon ymateb ysgrifenedig.<br><br>(iii) Sicrhau ymatebion amserol i gwynion o fewn yr amser penodol o 25 diwrnod gwaith ar hugain dan Gam 2 y Drefn. | Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth / Rheolwyr Timau<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth / Rheolwyr Timau<br><br>Swyddog Cwynion Dynodedig | Parhaus<br><br>Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Dysgu gwersi o ymchwiliadau i gwynion | Llunio cynlluniau gwaith mewn ymateb i argymhellion mewn adroddiadau ymchwilio i gwynion | Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth / Swyddog Cwynion Dynodedig | O fewn 20 diwrnod o roi i'r achwynydd ymateb ysgrifenedig ffurfiol a chopi o adroddiad yr ymchwiliad |
| 4. Rhoi gwybodaeth am weithrediad y Drefn Gwyno a Sylwadau | i) Sicrhau bod y llyfryn gwybodaeth am y Drefn Gwyno'n cael ei chylchredeg yn eang i bob plentyn mewn angen sy'n cael gwasanaeth gan yr Adran | Arweinyddion Tîm | Parhaus |
| | ii) Dosbarthu taflenni cwyno i bob defnyddiwr gwasanaeth yn y Gwasanaethau Oedolion pan dderbynnir cyfeiriad gan yr Adran; atgoffa aelodau o'r drefn gwyno mewn Adolygiadau Blynyddol. | Arweinyddion Tîm | Parhaus |
| 5. Rhoi hyfforddiant ar weithrediad y Drefn Gwyno a Sylwadau | Rhoi hyfforddiant i staff newydd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar Drefn Gwyno a Sylwadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar Safonau Gofal Cwsmer yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol | Swyddog Cwynion Dynodedig | Parhaus |

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| ADRODDIAD I: | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| DYDDIAD: | 15 Medi, 2015 |
| PWNC : | PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI A SEFYDLWYD GAN BWYLLGORAU SGRIWTINI'R AWDURDOD LLEOL |
| DEILYDD(ION) PORTFFOLIO : | D/B |
| AWDUR YR ADRODDIAD:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Rheolwr Sgriwtini Dros Dro<br><br>01248752039<br>AnwenDavies@anglesey.gov.uk |

1. **RHESWN**
Gwnaed nifer o argymhellion allweddol ar ymarfer sgriwtini llywodraeth leol mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dwyn y teitl "*Craffa Da? Cwestiwn Da!*"[1]. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio'n benodol at yr argymhellion canlynol o'r adroddiad hwnnw:
   - Gwella effeithiolrwydd aelodau pwyllgorau sgriwtini wrth ddal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif [effeithiolrwydd trefniadau];
   - Datblygu prosesau blaen raglennu craffu ymhellach [darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau];
   - Cysoni rhaglennu craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunan werthuso a gwella'r Cyngor [materion perfformiad ac oblygiadau ar gyfer gwella];
   - Cynnal hunan werthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu [cadernid trefniadau, clirdeb rolau – Sgriwtini a Gweithredol – ac agweddau gwerth ychwanegol Sgriwtini].

2. **PWRPAS**
Mae yna ddau bwrpas i'r adroddiad hwn:

   - Darparu datganiad sefyllfa/gwybodaeth ynglŷn â'r Paneli Canlyniad Sgriwtini a sefydlwyd gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini ac mae yna 7 ohonynt ar hyn o bryd;
   - Cynnig sut y bwriada'r Awdurdod gryfhau ymhellach yr aliniad rhwng y Swyddogaeth Graffu a blaenoriaethau strategol y Cyngor.

3. **DATGANIAD SEFYLLFA: PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI**
Mae yna 7 o Baneli Canlyniad Sgriwtini'n weithredol ar hyn o bryd fel a ganlyn:

3.1 **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (5)**
   - Gwaredu Asedau;

[1] Craffa Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Lleol (Mai, 2014)

- Adolygiad o Achos Benodol yn y Gwasanaethau Plant;
- Dileu Dyledion;
- Arbedion Effeithiolrwydd (2015/16);
- Diogelu Corfforaethol.

3.2 **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (2)**

- Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion;
- Cyd Graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Atodir datganiad sefyllfa sy'n crynhoi cefndir, cylch gwaith a chynnydd hyd yma ar waith y 7 Panel Canlyniad Sgriwtini (**ATODIAD 1**).

**4. ALINIAD: SWYDDOGAETH SGRIWTINI A BLAENORIAETHAU STRATEGOL Y CYNGOR**

4.1 Mae dau Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor yn dal i gyfrif, mewn modd cadarnhaol ac adeiladol, yr hyn a wneir gan y Pwyllgor Gwaith a sefydliadau Partner y Cyngor er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ar ei weledigaeth a blaenoriaethau strategol. Mae hi hefyd yn swyddogaeth gan y Pwyllgorau Sgriwtini i gefnogi gwasanaethau i gynnal safonau darparu gwasanaeth uchel a'u llywio tuag at eu gwneud yn fwy effeithiol ac effeithlon;

4.2 Manylir ar gynlluniau gwella'r Awdurdod dros dymor y Cyngor presennol hyd at 2017 yn ein Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Trawsnewid cysylltiedig. Gwelwyd adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru[2] (cyfeirir ato ym mharagraff 1 uchod) yn gwneud 9 argymhelliad allweddol ar ymarfer craffu Llywodraeth Leol yng Nghymru. 'Roedd un o'r argymhellion hyn yn ymwneud â'r angen i ddarparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau ynghyd â sicrhau aliniad rhwng rhaglenni craffu a threfniadau rheoli perfformiad, hunan werthuso a gwella'r Cyngor;

4.3 I'r perwyl hwnnw, argymhellir cefnogi'r Rhiant Bwyllgorau Sgriwtini i ddatblygu clirdeb o amgylch y materion canlynol pan yn ystyried y priodoldeb o sefydlu Paneli Canlyniad Sgriwtini newydd:

- Cytuno rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
- Cytundeb ar y cylch gorchwyl a'r canlyniadau a ddymunir;
- Aliniad gyda blaenoriaethau strategol y Cyngor;
- Sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar y gyfer y maes pwnc a'r canlyniad a ddymunir.

Yn sgîl trafodaethau diweddar gyda'r Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini, argymhellir hefyd y dylid ymgynghori gyda'r canlynol ar gylch gorchwyl a chanlyniadau a ddymunir ar gyfer unrhyw Baneli Sgriwtini newydd:

- Rhiant Bwyllgor Sgriwtini perthnasol;
- Grŵp Gwaith Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini;
- Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

[2] Craffa Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Lleol (Mai, 2014)

**5. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol:

**A1** Nodi'r sefyllfa ddiweddaraf parthed gwaith y saith Panel Canlyniad Sgriwtini;



**A2** Gefnogi ymdrechion swyddogion i gyflwyno adroddiadau cynnydd chwarterol ar waith y Paneli Canlyniad Sgriwtini i'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, Grŵp Gwaith Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth;

**A3** Gryfhau ymhellach ar yr aliniad rhwng y Swyddogaeth Sgriwtini a Blaenoriaethau Strategol y Cyngor (fel y manylir ym mharagraff 4 o'r adroddiad hwn).



Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro/
Geraint Roberts, Swyddog Sgriwtini
Uned Sgriwtini Gorfforaethol

Awst, 2015

# DATGANIAD SEFYLLFA – PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI

| **Rhif** | **Enw** | **Aelodaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Cefndir, Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma** | **Statws**<br><br>Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.<br>Tudalen 62 | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Gwaredu Asedau** | Cynghorwyr Meirion Jones (Cadeirydd), Llinos Medi Huws, Jim Evans a Raymond Jones | Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) (DRW)<br>[I'w gadarnhau] | **Cefndir**<br>• 01/09/ 2014 – Sefydlwyd y Panel gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol;<br>• 13/10/14 a 18/12/14 – Cyfarfod cyntaf y Panel wedi'i drefnu ond bu'n rhaid ei ohirio oherwydd amgylchiadau annisgwyl;<br>• 01/07/2015 – Cyfarfod cyntaf y Panel.<br>**Cylch Gorchwyl**<br>Edrych mewn manylder ar:<br>• Bolisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau cyfredol y Cyngor er mwyn sicrhau bod y Polisi'n:<br>➢ Galluogi 'r Awdurdod i waredu eiddo'n effeithiol ac effeithlon;<br>➢ Cael ei weithredu.<br>• Restr eiddo/asedau'r Awdurdod i graffu gweithrediad y Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau;<br>• Gyfraniad y Prosiect Gweithio'n Gallach i waredu asedau gan roi ystyriaeth benodol i'r gyrrwyr allweddol canlynol ar gyfer gweithredu Gweithio'n Gallach:<br>➢ Cau adeiladau;<br>➢ Llety gyda chyfyngiadau arnynt.<br>• Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor (Tiroedd ac Adeiladau) er sicrhau craffu cyn-penderfyniad a hynny cyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.<br>**Cynnyd Hyd Yma**<br>• 08/07/15 & 28/07/15 – 2 gyfarfod pellach o'r Panel wedi'u cynnal;<br>• 2 gyfarfod pellach o'r Panel wedi'u trefnu ar gyfer 01/09/15 & 10/09/15;<br>• Rhagweler y bydd angen 4 cyfarfod pellach gyda chynlluniau mewn lle i gyflwyno gwaith y Panel i'r Rhiant Bwyllgor ddiwedd 2015/dechrau 2016. |  |
| 2. | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Adolygu achos benodol** | Cynghorwyr Gwilym Jones, Llinos Medi | Pennaeth Gwasanaethau Plant (AMH) | **Cefndir**<br>• Rhagfyr 2014 – Derbyniodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gais i sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini. |  |

| Rhif | Enw | Aelodaeth | Swyddog Arweiniol | Cefndir, Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
| | **yn y Gwasanaethau Plant** | Huws a Lewis Davies. | | **Cylch Gorchwyl**<br>• Cais i Sgriwtini adolygu/ymchwilio achos benodol yn y Gwasanaethau Plant a oedd wedi bod yn destun adroddiadau yn yr Wasg.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• 25/06/15 – cynhaliwyd cyfarfod o'r Panel. Adroddiad cynnydd yn cael ei baratoi ar gyfer y Rhiant Bwyllgor Sgriwtini (16/11/15). | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Dileu Dyledion** | Cynghorwyr Meirion Jones, Llinos Medi Huws, Jim Evans a Robert Llewelyn Jones gyda gwahoddiad i'r Deilydd Portffolio Cyllid yn ôl yr angen | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 Dros Dro (RM) | **Cefndir**<br>• 24/03/2015 - Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn sefydlu'r Panel;<br>• 30/06/2015 – Cyfarfod cyntaf y Panel.<br>**Cylch Gorchwyl**<br>Edrych mewn mwy o fanylder ar:<br>• Ddileu dyledion;<br>• Reoli dyled yn yr Awdurdod.<br>trwy edrych mewn mwy o fanylder ar y gwahanol elfennau ym mhroses rheoli dyledion yr Awdurdod:<br>➢ Diffiniad o ddyledwr, pa ddyled sy'n ddyledus gan Wasanaethau a'r gweithredu gan Wasanaethau unigol;<br>➢ Codi dyled a beth sy'n digwydd. Sut y derbynnir taliadau<br>➢ Gorfodaeth - egwyddorion a dulliau/gweithdrefnau;<br>➢ Dileu dyledion.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• 28/07/15 – cynhaliwyd cyfarfod pellach o'r Panel;<br>• 5 cyfarfod o'r Panel wedi'u rhaglennu ar gyfer 01/09/15, 06/10/15, 03/11/15, 01/12/15 & 05/01/16;<br>• Rhagweler y cyflwynir Adroddiad Terfynol y Panel gerbron y Rhiant Bwyllgor Sgriwtini yn Chwefror/Mawrth, 2016. | |

| Rhif | Enw | Aelodaeth | Swyddog Arweiniol | Cefndir, Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma | Statws<br><br>Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
|---|---|---|---|---|---|
| 4. | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion** | Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Alun Mummery, Meirion Jones, Gwilym Jones, Lewis Davies, Richard Owain Jones, Dylan Rees a Jim Evans.<br><br>[Ar gais yr UDA, ystyried y priodoldeb o ymestyn ymhellach ar yr aelodaeth. Amcan: Cyfraniad i waith y Panel ar draws ystod ehangach o Aelodau]. | Pennaeth Gwasanaeth – Dysgu ( DM) | **Cefndir**<br>• Sefydlwyd y Panel Canlyniad Sgriwtini'n dilyn Arolwg Estyn o ddarpariaeth addysgol yr Awdurdod ac mae'n cynnwys Aelodau o'r ddau bwyllgor sgriwtini;<br>• Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 20/05/14, 05/06/14, 09/12/14, 05/02/15, 13/02/15, 10/03/15, 17/03/15 a 10/07/15.<br>**Cylch Gorchwyl**<br>➢ Cylch gorchwyl y Panel ydy monitro cynnydd ysgolion unigol sydd angen cefnogaeth fel y nodwyd yn y fframwaith categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru;<br>➢ Gall y Panel argymell i'r Adran Dysgu Gydol Oes fod angen cefnogaeth ychwanegol ar ysgol benodol gan y Gwasanaeth Addysg a/neu'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE). Mae gwaith y Panel yn parhau.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>➢ Cynhelir cyfarfod pellach o'r Panel ar 21 Hydref gyda threfniadau mewn llaw i gynnal 5 cyfarfod pellach o'r Panel yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol gyfredol (er mwyn monitro perfformiad 7 ysgol);<br>➢ Nid oes dyddiad terfyn ffurfiol i'r Panel gyda'r gwaith yn parhau o flwyddyn i flwyddyn. Cyflwynir adroddiad ar waith y Panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym mis Tachwedd yn flynyddol ac yna i'r Cyngor Llawn ym Mai bob blwyddyn trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol Sgriwtini. |  |
| 5. | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Cyd Graffu'r Bwrdd Gwasanaethau** | Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid ( Cyngor Gwynedd) ( JR) | **Cefndir**<br>• 14/01/15 – Y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'n cytuno i sefydlu Cyd-Banel Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.<br>• Mawrth, 2015 – Cyngor Gwynedd yn cytuno i enwebu Aelodau ar gyfer y Panel. |  |

| Rhif | Enw | Aelodaeth | Swyddog Arweiniol | Cefndir, Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
| Tudalen 65 | **Lleol** | Partneriaeth ac Adfywio ynghyd â'r Cynghorydd John Griffith. (Cynghorydd Dylan Rees fel Eilydd) | | **Cylch Gorchwyl**<br>• Darparu her "ffrind beirniadol" i'r BGLl/BGC;<br>• Craffu, gwerthuso ac hyrwyddo mewn modd rhagweithiol y gwella yn y gwaith a gyflawnir yn unol â blaenoriaethau'r BGLl/BGC (yn hytrach na blaenoriaethau'r sefydliadau unigol a gynrychiolir ar y BGLl);<br>• Craffu, gwerthuso ac hyrwyddo mewn modd rhagweithiol y gwella wrth ddatblygu a gweithredu ar brosiectau i gyfarch y blaenoriaethau a gytunwyd gan y BGLl/BGC;<br>• Cyflwyno adroddiadau i bartneriaid neu'r BGLl/BGC a gwneud argymhellion ar fesurau all wella effaith;<br>• Adlewyrchu llais a phryderon dinasyddion a chymunedau ar Ynys Môn a Gwynedd.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• Haf, 2015 – Bu i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) gyfarfod ar 26/06/15 ac argymhellwyd y dylid symud ymlaen gyda'r Cyd-Banel Craffu ar y sail bod yr aelodaeth yn cael ei diwygio i adlewyrchu aelodaeth statuduol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) arfaethedig a fydd yn cymryd lle'r BGLl o Ebrill, 2016. Mae Tîm Cefnogi'r BGLl bellach yn adnabod enwebiadau gan yr asiantaethau statudol eraill (Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru). | |
| 6. | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Arbedion Effeithiolrwydd (2015/16)** | Cynghorwyr Meirion Jones, Llinos Medi Huws a Victor Hughes. | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 Dros Dro (RM) | **Cefndir**<br>• 17/04/14 – Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn sefydlu'r Panel;<br>• 15/05/14 – Cyfarfod cyntaf y Panel a chynaliwyd 4 cyfarfod dilynol o'r Panel;<br>• 20/04/15 – Cyflwynwyd Adroddiad Terfynol y Panel i'r Pwyllgor Gwaith a derbyniwyd yr argymhellion;<br>• 10/06/15 –. Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cytuno i ail gynnull y Panel yn ystod 2015/16 i ymchwilio'r arbedion effeithiolrwydd yn erbyn y targedau a osodwyd.<br>**Cylch Gorchwyl**<br>Edrych mewn manylder ar:<br>• Y graddau y cyflawnir arbedion effeithiolrwydd 2015/16 yn erbyn targedau Gwasanaethau;<br>• A oes trefniadau rheoli prosiect cadarn mewn lle i gefnogi'r gwaith o wireddu ar strategaeth | |

| Rhif | Enw | Aelodaeth | Swyddog Arweiniol | Cefndir, Cylch Gorchwyl a Chynnydd Hyd Yma | Statws<br><br>Gwyrdd – Ar amser.<br><br>Ambr- Ar ei hôl hi ond y dasg ar y ffordd i gael ei chwblhau.<br><br>Coch – Ar ei hôl hi a risg sylweddol o beidio â chwblhau. |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | arbedion yr Awdurdod;<br>• A ydy lefel wirioneddol yr arbedion a gyflawnir yn unol â'r rhagamcanion;<br>• Reolaeth risgiau'n gysylltiedig â'r strategaeth arbedion.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• 07/09/15 & 14/09/15 – 2 gyfarfod cyntaf y Panel wedi'u rhaglennu;<br>• Cylch Gorchwyl a'r Cynllun Prosiect yn cael eu negydu ar hyn o bryd gyda'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro. | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: **Diogelu Corfforaethol** | I'w chadarnhau gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16/11/15 | Pennaeth Gwasanaethau Plant (AMH) [Swyddogaeth ddirprwyiedig: rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol] | **Cefndir**<br>• 06/07/15 – Y Pwyllgor Sgriwtini'n sefydlu'r Panel er mwyn cwblhau adolygiad cynhwysfawr o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd yr Awdurdod er sicrhau bod trefniadau Corfforaethol ar gyfer diogelu mewn lle ac yn gweithio'n effeithiol.<br>**Cylch Gorchwyl Cychwynnol***<br>• Monitro cydymffurfiaeth gydag anghenion Awdit (SAC) trwy sicrhau sgriwtini rheolaidd, ffurfiol o ddiogelu (yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol);<br>• Dal y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol i gyfrif ar gyfer effeithiolrwydd y trefniadau diogelu.<br>**Cynnydd Hyd Yma**<br>• Trafodaethau'n parhau gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol a'r Penaethiaid Gwasanaeth (Plant ac Oedolion) er mwyn cadarnhau'r cylch gorchwyl a'r amserlen ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Panel;<br>• Adroddiad cynnydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16/11/15 – i gynnwys ystyriaeth o aelodaeth y Panel.<br>[*Bydd angen i Gylch Gorchwyl terfynol y Panel adlewyrchu oblygiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (cyfrifoldebau statudol diogelu a rôl Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol). Cyflwynir adroddiad pellach ar gylch gorchwyl y Panel er ystyriaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod i'w gynnal ar 16 Tachwedd, 2015]. | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **15 Medi 2015** |
| **PWNC:** | **Diweddariad ar Drefniadau Sgriwtini Arfaethedig Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y Cynghorydd Ieuan Williams** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br><br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Adroddiad ar y Cyd gan:**<br>**Llio Johnson (Uwch Reolydd Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn), Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn) a Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd).**<br><br>**D/O: 01248 752039**<br>**D/O: gwrce@ynysmon.gov.uk** |

**1.0 ARGYMHELLIAD**

1.1 Nodi'r diweddariad fel yr amlinellir ef yn yr adroddiad.

1.2 Bod diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor unwaith y bydd swyddogion wedi cael amser i ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn arbennig felly'r wybodaeth am sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chyfranogiad sgriwtini ynddo.

**2.0 RHESWM**

2.1 Cyflwynir yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y trefniadau sgriwtini ar y cyd a fwriedir ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.

2.2 Bydd yr Aelodau'n cofio i Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn gytuno ar 14 Ionawr 2015 i sefydlu Panel Sgriwtini ar y Cyd ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn (y Panel Sgriwtini ar y Cyd). Ar 15 Ionawr 2015 cyflwynwyd yr un adroddiad yn union i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yng Nghyngor Gwynedd, ac ar ôl ystyried y materion a godwyd yn y cyfarfod cytunodd Cyngor Gwynedd hefyd, ar 26 Mawrth 2015, i sefydlu Panel Sgriwtini ar y Cyd.

2.3 Wrth gytuno i sefydlu Panel Sgriwtini ar y Cyd gofynnodd y ddau Bwyllgor Sgriwtini i swyddogion fwrw ymlaen i wneud y trefniadau ymarferol, gan gynnwys materion fel penderfynu'n derfynol ar aelodaeth y Panel Sgriwtni a'r trefniadau hyfforddiant.

2.4 Mae Swyddogion Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Uned Graffu Cyngor Gwynedd ac Uned Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyfarfod i symud pethau ymlaen, ond maent wedi bod yn wyliadwrus rhag symud yn rhy sydyn oherwydd y bydd angen sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2016 i ddisodli'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei chynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 29 Ebrill 2015.

2.5 Y sefyllfa ar hyn o bryd yw y disgwylir rhagor o ganllawiau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn yr hydref eleni a dylai'r rheini roi mwy o eglurder ynghylch sut i fwrw ymlaen i sgriwtineiddio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan ddaw i rym ym mis Ebrill 2016. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r ddeddfwriaeth yn dweud yn glir y bydd aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ein hardal yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dywed y Ddeddf hefyd bod rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wahodd cyrff mandadol penodol (a restrir yn y Ddeddf), a bydd ganddo rym hefyd i wahodd unrhyw berson arall sy'n briodol yn eu barn nhw i gymryd rhan. Nid yw'r rheini a wahoddir yn fandadol neu'n ddewisol yn dod yn aelodau o'r bwrdd trwy dderbyn y gwahoddiad.

2.6 Cyfarfu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar 26 Mehefin 2015 gan argymell y dylai'r Panel Sgriwtini ar y Cyd fwrw ymlaen ar y sail y dylai ei aelodaeth adlewyrchu aelodaeth statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gan fod y ddau Bwyllgor Sgriwtini bellach wedi adnabod eu haelodau i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini, bydd angen i ni gydgysylltu gyda chyrff eraill i gael enwebeion. Amgaeaf, wedi eu marcio fel **ATODIAD 1,** atodlen wedi eu diweddaru yn crynhoi aelodaeth, trefniadau llywodraethu ac adrodd yn ôl ac amlder y cyfarfodydd.

2.7 Ystyrir na fyddai'n ddoeth bwrw ymlaen i wneud dim byd arall ar hyn o bryd. Dylid pwyllo yn awr hyd nes y bydd y Canllawiau ffurfiol yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a hyd nes y ceir amser i'w hystyried. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau bod ymholiadau wedi eu gwneud i gael darparwr hyfforddiant addas i roi hyfforddiant sydd wedi ei deilwrio'n benodol ar gyfer aelodau'r Panel Sgriwtini ar y cyd unwaith y sefydlir ei aelodaeth.

Awdur: Adroddiad ar y cyd gan Llio Johnson (Uwch Reolydd Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn), Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn) a Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd).

Dyddiad: 24 Awst 2015

# ATODIAD 1

**Aelodaeth**

Y Panel i adlewyrchu  aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.  Bydd cynrychiolwyr o'r partneriaid statdol yn dod â gwahanol gyfraniad ac agwedd at y bwrdd, yn cynnwys eu ffurf benodol hwy o atebolrwydd ac arbenigedd gwasanaeth a phroffesiynol unigryw. Yr amcan yw creu synergedd cryf trwy gyfuno ac adeiladu ar gryfderau a mynd i'r afael â rhwystrau lle y gallant fodoli.  Cynigir yr aelodaeth a ganlyn sy'n seiliedig ar arfer dda :-

- 3 Aelod Etholedig o Gyngor Gwynedd nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith;
- 3 Aelod Etholedig o Gyngor Sir Ynys Môn nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith;
- 1 wedi'i enwebu o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- 1 wedi'i enwebu o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- 1 wedi'i enwebu o  Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Trefniadau Llywodraethu ac Adrodd yn ôl**

Er mai un o brif gryfderau'r model hwn yw ei hyblygrwydd a'i fod yn rhydd o nifer o rwystrau cyfansoddiadol. Mae angen cwblhau gwaith pellach er mwyn datblygu'r trefniadau llywodraethu ac adrodd yn ôl yn llawn ar gyfer y Panel Sgriwtini arfaethedig.  Bydd y canllawiau isod yn sylfaen i'r trefniadau hyn :-

- Darparu her 'ffrind beirniadol' i'r  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Sgriwtineiddio, gwerthuso a hyrwyddo yn weithredol welliant mewn gwaith a wneir yn unol â blaenoriaethau'r  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac nid rhai'r sefydliadau unigol sy'n rhan o'r Bwrdd ac sy'n cael eu cynrychioli ar y  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Sgriwtineiddio, gwerthuso a bod yn weithredol yn hyrwyddo gwelliant o ran datblygu a gweithredu prosiectau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a osodwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus .
- Cyflwyno adroddiadau i'r partneriaid neu'r BGC (fel bydd yn briodol) a gwneud argymhellion ar fesurau all wella effaith y  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Adlewyrchu llais a phryderon dinasyddion a chymunedau yng Ngwynedd a Môn.

**Amlder y Cyfarfodydd**

Bwriedir y bydd cyfarfodydd o'r Panel yn cael eu galw yn 6 misol. Fodd bynnag, bydd angen cael rhywfaint o hyblygrwydd wrth i siwrnai drawsnewid y  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus e.e. efallai y bydd aelodau'r Panel yn dymuno ystyried materion ar sail ad-hoc.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

SCRUTINY

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o fis Mai 2015 i fis Mai 2016. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith** | | | |
| **15 Medi 2015** | Enwebiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol. | Enwebu un aelod i'r Panel sy'n sicrhau bod gwasanethau i blant a phobol ifanc mewn gofal o safon uchel | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Trawsnewid Gwasanaeth Wardeiniaid Tai Gwarchod | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Tai Môn | Monitro | |
| | Trefniadau Diogelu Oedolion Bregus | Monitro | |
| | Adroddiad Cwynion Blynyddol - Gwasanaethau Cymdeithasol | Monitro | |
| | Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Panel Sgriwtineiddio ar y Cyd | Diweddariad | |
| | | | |
| **17 Tachwedd 2015** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Diweddariad ac Adborth | Siambr y Cyngor / 2 yp |
| | Strategaeth Cefnogi Teleuodd | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **Tachwedd/ Rhagfyr 2015 (Dyddiad i'w drefnu)** | Trefniadau Casglu Sbwriel Wythnosol – Asesu opsiynau | Sgriwtini cyn penderfyniad | Siambr y Cyngor (Amser i'w drefnu) |
| | | | |
| **2 Chwefror 2016** | Adolygiad Gwasanaethau Ieuenctid | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Adolygiad Gwasanaethau Diwylliant | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **12 Ebrill 2016** | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymmunedol | Monitro | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | | | |

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(Teitl yr Adroddiad / Title of Report)***

**Model a'r Camau Gweithredu Arfaethedig i Foderneiddio'r Gwasanaeth Warden mewn Llety Tai Gwarchod sydd ym mherchnogaeth y Cyngor a'i newid am Wasanaeth Cymorth Hyblyg penodol, ar gyfer Pobl Hŷn.**

**Proposed Model and Action to Modernise the Warden Service Within Council Owned Sheltered Housing Accommodation and replace with a bespoke Floating Support Service, for Older People.**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) 12,13,14,15,17 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) Schedule 12A Local Government Act 1972<br><br>[un neu fwy o /one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C]</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</td><td>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</td></tr>
<tr><td>Mae'r mater hwn yn ymwneud ag arian cyhoeddus. Mae budd i'r cyhoedd mewn tryloywdeb yn y ffordd mae'r Cyngor yn ystyried ail-fodelu darpariaeth gwasanaeth warden o fewn eu stoc tai gwarchod er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda chanllawiau ac amodau derbyn arian Grant Rhaglen Cefnogi Pobl, Llywodraeth Cymru.<br><br>This matter involves public money. The public will benefit from transparency in which the council is considering remodelling its sheltered housing warden service provision in order to comply with the guidelines and receipt of the Welsh Government's Supporting People Programme Grant funding.</td><td>Bydd gwybodaeth mewn perthynas â materion busnes ac ariannol sensitif y Cyngor yn cael ei thrafod.<br>Mae'r Adroddiad ac atodiadau hefyd yn cynnwys gwybodaeth y gellir, yn rhesymol, ddisgwyl, iddo arwain at ymgynghoriadau gyda staff yr Awdurdod ac y gellir, o bosib, eu hadnabod yn anuniongyrchol trwy drafod yr adroddiad yn gyhoeddus.<br><br>Information relating to sensitive financial and business affairs of the Authority are to be discussed.<br>The report and attachments also contain information which might reasonably be expected to result in consultations or negotiations with staff of the Authority and who may be indirectly identified by discussion of the report in the public domain.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/ the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

Document is Restricted

This page is intentionally left blank